# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN,<br>21 MEDI, 2020 am 2.00 o'r gloch yp | MONDAY,<br>21 SEPTEMBER, 2020 at 2.00 p.m. |
| CYFARFOD RHITHIOL (AR HYN O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU'R CYFARFOD) | VIRTUAL MEETING (AT PRESENT MEMBERS OF THE PUBLIC AR UNABLE TO ATTEND) |
| Swyddog Pwyllgor — Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Mr. Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) a Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

# R H A G L E N

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofndion y cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2020.

4 **ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS 2019/20** (Tudalennau 9 - 26)

Cyflwyno adroddiad gan Reolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn.

5 **YMATEB Y CYNGOR I'R ARGYFWNG COVID-19** (Tudalennau 27 - 44)

Cyflwyno adroddiad y Prif Weithredwr.

6 **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR AR GYFER 2020/21** (Tudalennau 45 - 50)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2020

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr K P Hughes, R Ll Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret Murley Roberts a Nicola Roberts.<br><br>Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Llinos M Huws (ar gyfer eitemau 5 a 6).<br>Deilydd Portffolio – Busnes Corfforaethol (ar gyfer eitem 4). |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Adran 151 (ar gyfer eitem 4),<br>Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol a Chontractau (ar gyfer eitem 4), Pennaeth Dros Dro - Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitem 6),<br>Rheolwr Masnachol Hamdden (GW) (ar gyfer eitem 6)<br>Rheolwr Sgriwtini (AD),<br>Swyddog Sgriwtini (SR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Trefor Lloyd Hughes MBE a Vaughan Hughes.<br><br>Deilydd Portffolio – Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd – Y Cynghorydd Carwyn Jones. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn (NH) (ar gyfer eitem 5). |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodir uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror, 2020 yn gywir.

**Yn codi o'r cofnodion**

**Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Gofynnodd y Cynghorydd K P Hughes a anfonwyd llythyr at Lywodraeth Cymru yn mynegi siom fod cyllid ar gyfer y cynllun 'Syrthio yn y Cartref' wedi dod i ben ac y dylai Llywodraeth Cymru ailystyried darparu arian ar gyfer y cynllun. Dywedodd y Swyddog Sgriwtini y byddai'r llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei anfon yr wythnos hon.

**4 PROTOCOL SIARAD CYHOEDDUS AR GYFER SGRIWTINI**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

Dywedodd y Deilydd Portffolio – Busnes Corfforaethol mai'r bwriad wrth gyflwyno Protocol Siarad Cyhoeddus yw darparu proses eglur a hwylus i'r cyhoedd fedru rhannu eu barn gyda'r Pwyllgorau Sgriwtini fel rhan o'u trafodaethau.

Rhoddodd y Cyfreithiwr - Llywodraethiant Corfforaethol a Chontractau amlinelliad o'r adroddiad i'r Pwyllgor a dywedodd, yn unol ag Adran 62 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ac o dan Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), bod rhaid i'r Cynghorau Sir sicrhau fod y rheini sy'n byw neu'n gweithio yn eu hardal yn gallu cyfrannu eu safbwyntiau ar unrhyw fater sydd i'w ystyried gan Bwyllgorau Sgriwtini. Dywedodd bod cael canllawiau clir yn rhoi cysondeb a thryloywder i'r cyhoedd, aelodau etholedig a swyddogion. Bydd cyflwyno'r Protocol Siarad Cyhoeddus yn cynorthwyo'r cyhoedd i ddeall y broses y bydd angen ei dilyn ac yn sicrhau fod proses gyson yn cael ei mabwysiadu sydd yn rheoli disgwyliadau'r cyhoedd mewn perthynas â'u cyfraniad. Mae'r adroddiad yn amlinellu manylion y protocol mewn perthynas â chais i siarad mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaed y pwyntiau a ganlyn:-

- Cyfeiriwyd at y ddeddfwriaeth sy'n caniatáu i'r cyhoedd gyfrannu mewn cyfarfodydd a gofynnwyd a fyddai'r Protocol Siarad Cyhoeddus yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro pe byddai'r Cyngor llawn yn cymeradwyo'r Protocol Siarad Cyhoeddus ym mis Mai, yna byddai'r protocol yn cael ei ymgorffori yn y Cynllun Cyfathrebu ac y byddai'n cael ei adolygu ar ôl chwe mis, ac ar ôl 12 mis wedi hynny, er mwyn mesur a fu'r protocol yn effeithiol. Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd yn holl bwysig i'w galluogi i gyfrannu eu barn ar unrhyw fater a ystyrir gan y Pwyllgorau Sgriwtini;
- Gofynnwyd a fydd y Protocol Siarad Cyhoeddus yn caniatáu i'r cyhoedd siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fod deddfwriaeth yn caniatáu i'r cyhoedd gymryd rhan yn ystod ymgynghoriad ar fater penodol, ond nid yw'r ddeddfwriaeth yn nodi bod rhaid mabwysiadu Protocol Siarad Cyhoeddus ond mae'n rhoi cyfle i'r cyhoedd gyfrannu mewn cyfarfodydd;

- Gofynnwyd sut fyddai blaenoriaethu unigolion sy'n dymuno siarad mewn cyfarfodydd yn cael ei weinyddu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro y byddai trefn yn cael ei gweinyddu i flaenoriaethu'r rhai sy'n gofyn am gael siarad mewn Pwyllgor Sgriwtini h.y. 'o blaid ac yn erbyn' ac yn cynrychioli pob safbwynt. Y Swyddogion Sgriwtini fydd yn gweinyddu'r protocol siarad mewn Pwyllgorau Sgriwtini;
- Gofynnwyd a fydd rhaid i Gadeiryddion Pwyllgorau Sgriwtini geisio cyngor cyfreithiol pan dderbynnir cais hwyr gan y cyhoedd i gymryd rhan mewn Pwyllgor Sgriwtini. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro nad yw'n ofynnol i Gadeiryddion Sgriwtini geisio gwybodaeth gan Swyddogion perthnasol ond byddai modd datgan y byddai disgwyl i Gadeiryddion Sgriwtini geisio cyngor.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn mabwysiadu'r Protocol Siarad Cyhoeddus ar gyfer Sgriwtini gyda'r ychwanegiad y disgwylir i Gadeiryddion Sgriwtini geisio gwybodaeth gan Swyddogion Perthnasol os derbynnir cais hwyr i siarad mewn Pwyllgor Sgriwtini.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

**5 ADRODDIAD CYNNYDD AR GYFLAWNI'R CYNLLUN LLESIANT BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN**

Cyflwyno adroddiad gan Reolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn.

Adroddodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn y cafodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn ei sefydlu yn 2016, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae gan y Bwrdd 4 aelod statudol, sy'n cynnwys y Cynghorau Sir, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, ynghyd â 10 o sefydliadau cyhoeddus sy'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd.

Cytunodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar feysydd blaenoriaeth i gyflawni amcan 2 y Cynllun Llesiant. Sefydlwyd yr Is-grwpiau a ganlyn dan Amcan 1 - Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus yn yr hir dymor.

- **Is-grŵp yr Iaith Gymraeg -** gweithred gyntaf yr Is-grŵp oedd cymryd rhan yn y prosiect 'Arfer'. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn un o'r partneriaid sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Mae Prifysgol Bangor wedi treialu'r prosiect 'Arfer' yn barod ac fe welwyd cynnydd yn y defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gweithle yn ogystal â chynnydd mewn hyder wrth ddefnyddio'r iaith. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi gofyn i Is-grŵp yr iaith Gymraeg ystyried sefydlu prosiect i edrych yn benodol ar sut i hyrwyddo ac annog defnyddio'r iaith Gymraeg mewn derbynfeydd;
- **Is-grŵp Effaith Newid Hinsawdd ar Lesiant ein Cymunedau -** mae'r Is-grŵp wedi nodi'r angen i addysgu a gweithio mewn partneriaeth â chymunedau lleol er mwyn eu paratoi ar gyfer heriau presennol ynghylch newid hinsawdd a'r rheini y byddwn yn eu hwynebu yn y dyfodol. Cynhaliwyd trafodaethau ar lefel ranbarthol yn ddiweddar a chytunwyd y byddai'r Is-grŵp yn trefnu gweithdy ar addasu i

newid hinsawdd i drafod y cymunedau a fyddai'n elwa o gynlluniau addasu i newid hinsawdd. Cynhaliwyd rhan gyntaf y gweithdy a chynhelir gweithdy pellach ym mis Mawrth 2020 a bydd adborth o'r gweithdy'n cael ei rannu gyda'r ddau awdurdod lleol yn dilyn hynny;

- **Is-grŵp Cartrefi ar gyfer Pobl Leol -** mae'r Is-grŵp yn gweithio gyda'r sector dai i sicrhau mwy o gartrefi addas a fforddiadwy yn y llefydd iawn i ddiwallu anghenion lleol. Penodwyd Swyddog Rheoli Prosiect rhan amser i arwain gwaith yr Is-grŵp a chynhyrchwyd Cynllun Gweithredu ar ei gyfer;
- **Is-grŵp effaith tlodi ar Lesiant ein Cymunedau -** mae tlodi'n parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd ond nid oes is-grŵp yn arwain y gwaith ar hyn o bryd. Cytunwyd bod cyfle drwy'r Bwrdd i roi sylw i'r gwaith sydd eisoes yn digwydd yn y ddau awdurdod cyn ystyried opsiynau i'r Bwrdd weithio mewn ffordd fwy integredig a chydlynus. Yn ogystal, mae Swyddogion Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ymgymryd â dau faes astudiaeth (1) trafnidiaeth, ac yn arbennig rhwystrau a wynebir gan unigolion ar draws y rhanbarth sy'n eu hatal rhag cyrraedd lleoliadau gwaith neu sefydliadau hyfforddi a (2) deall effaith tlodi ac amddifadedd ar fywydau trigolion ac ar eu llesiant.

Mae'r ddau faes blaenoriaeth, 'Iechyd a Gofal Oedolion' a 'Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc', yn cyfrannu at Amcan 2. Mewn perthynas â'r ffrwd waith anableddau dysgu, mae gwaith yn digwydd yn Ynys Môn, gyda chyllidebau cyfun, i gryfhau gwasanaethau anableddau dysgu.

Cyfeiriodd Arweinydd y cyngor at grant cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws y rhanbarth. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn wedi cynnig bod y ffynhonnell ariannu hon yn cael ei defnyddio i ariannu astudiaeth ynghylch hyrwyddo'r iaith Gymraeg mewn derbynfeydd. Bydd y cynnig hwn yn cael ei gylchredeg ymysg Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill y rhanbarth maes o law, a rhagwelir y byddai modd defnyddio canfyddiadau'r cynllun peilot ar lefel ranbarthol, os nad genedlaethol.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaed y pwyntiau canlynol:-

- Gofynnwyd beth oedd y prif risgiau a heriau o ran cyflawni amcanion y Cynllun Llesiant a sut fydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn mynd ati i liniaru'r risgiau hyn. Cyfeiriodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn at y gofrestr risg yn Atodiad 1 a dywedodd bod y prif risgiau wedi eu cynnwys. Y prif risgiau o ran cyflawni amcanion y Cynllun Llesiant yw diffyg adnoddau ac ymrwymiad aelodau'r Bwrdd mewn perthynas â gwaith yr Is-grwpiau. Nododd hefyd bod y gofrestr risg yn ddogfen fyw ac y byddai aelodau'r Is-grwpiau yn cyfrannu at y gofrestr a'r camau lliniaru;
- Gofynnwyd a oedd posibilrwydd y byddai gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dyblygu gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan yr Awdurdodau Lleol. Rhoddodd Arweinydd y Cyngor enghraifft mewn perthynas â hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yn y gweithle. Dywedodd, er bod gwaith yn cael ei wneud yn yr awdurdodau lleol i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg ac fel aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, mae'r awdurdodau lleol yn gallu hyrwyddo pwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn y gweithle ymysg aelodau eraill y bwrdd. Cyfeiriwyd hefyd at yr Is-grŵp Tlodi. Nodwyd nad oes is-grŵp yn delio gyda

thlodi ar hyn o bryd. Dywedodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn fod y Bwrdd wedi cytuno i gadw golwg ar gynnydd yr awdurdodau lleol mewn perthynas â mynd i'r afael â thlodi ac yn dilyn hynny bydd y bwrdd yn cytuno ymhle i ganolbwyntio ei adnoddau er mwyn ychwanegu gwerth at y gwaith a wnaed gan y ddau awdurdod lleol. Mae hwn yn enghraifft o ymgais gan y Bwrdd i osgoi dyblygu;

- Cyfeiriodd Aelod at flaenoriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fynd i'r afael â chartrefi ar gyfer pobl leol. Roedd yn ystyried y gallai polisïau o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd fod yn rhwystr o ran caniatáu i bobl ifanc adeiladu cartrefi yn eu cymunedau a gofynnodd a yw hyn yn risg i flaenoriaethau'r Bwrdd. Dywedodd Arweinydd y Cyngor na fyddai hynny'n cael ei ystyried fel risg i'r Bwrdd. Mae polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn caniatáu datblygu tai fforddiadwy. Ychwanegodd fod yr Awdurdod Iechyd a'r Heddlu, drwy waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi nodi tir gwag posib sydd ar gael i ddatblygu cartrefi ar gyfer pobl leol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

**GWEITHREDU : Fel y nodir uchod.**

**6 DARPARIAETH HAMDDEN AR GYFER CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro - Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y Cynllun Hamdden yn ceisio arddangos ymagwedd integredig tuag at ofal iechyd ataliol yn Ynys Môn drwy sicrhau y darperir cyfleusterau hamdden cynaliadwy ac o ansawdd uchel i alluogi preswylwyr i fyw bywydau actif, atal afiechyd a gwella llesiant. Nododd y cynhaliwyd nifer o sesiynau briffio i asesu dyfodol cyfleusterau hamdden yr Awdurdod.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro - Rheoleiddio a Datblygu Economaidd y cynhaliwyd adolygiad o'r cyfleusterau hamdden i nodi gwelliannau cyfalaf posib i'r canolfannau hamdden. Amcangyfrifwyd y byddai'n costio £21m i adnewyddu'r canolfannau hamdden yn rhannol, yn unol ag arferion adeiladu modern. Byddai'n costio £37m i adeiladu tair canolfan hamdden newydd i gymryd lle'r rhai presennol. Bwriad y Cyngor yw cadw'r pedair canolfan hamdden bresennol ac, oherwydd y sefyllfa ariannol bresennol, cynigir bod angen rhaglen fuddsoddi ar raddfa lai, yn canolbwyntio yn gyntaf ar waith cynnal a chadw angenrheidiol a gwaith buddsoddi ar raddfa lai, i gynnal y ddarpariaeth bresennol yn y tymor byr a chanolig; gwerth y gwaith hwn yw £1m a £3m yn y drefn honno. Cyfeiriodd hefyd at y gwelliannau cyfalaf a wnaed yn barod ac y cyfeirir atynt yn yr adroddiad. Ar hyn o bryd mae cyfleoedd ar gael i sicrhau lefel cymharol isel o arian allanol i wella pob canolfan hamdden a rhaid i'r gwasanaethau hamdden fedru cynhyrchu prosiectau cadarn i wneud cais am yr arian hwn.

Rhoddodd y Rheolwr Masnachol Hamdden gyflwyniad byr i'r Pwyllgor a nododd bod nifer defnyddwyr y 4 canolfan hamdden wedi cynyddu i 530,000 yn ystod 2018/19. Mae'r canolfannau'n darparu nifer o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau corfforol ac yn annog ffordd iach o fyw. Ychwanegodd fod y brand Môn Actif wedi

gwella canfyddiad y cyhoedd am gyfleusterau'r canolfannau hamdden a bod pecynnau debyd uniongyrchol wedi denu mwy o bobl i ddefnyddio’r adnoddau yn y pedair canolfan hamdden, ynghyd â phecynnau corfforaethol am bris gostyngol i fusnesau.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaed y pwyntiau a ganlyn:-

- Nodwyd bod y gwasanaeth hamdden yn bwriadu sicrhau cyllid ychwanegol i wella gwasanaethau hamdden ar yr Ynys. Gofynnwyd a fyddai modd derbyn arian grant gan Gemau’r Ynysoedd fydd yn cael eu cynnal ar Ynys Môn yn 2025. Dywedodd y Rheolwr Masnachol Hamdden na ragwelir y bydd arian grant mawr ar gael ar gyfer Gemau’r Ynysoedd yn 2025 gan fod Cymdeithas Gemau’r Ynysoedd yn ystyried fod y cyfleusterau presennol ar Ynys Môn yn ddigonol ar ôl creu caeau 3G newydd ym Mhlas Arthur, Llangefni a Phorthaethwy ac ystafell ffitrwydd yng Nghaergybi. Cyfeiriodd at Dwrnamaint Pêl Droed Gemau’r Ynysoedd a gynhaliwyd ar Ynys Môn yn 2019 a oedd yn llwyddiant mawr a nododd mai nod Gemau’r Ynysoedd yw dathlu cyfleusterau hamdden a rhoi cyfleoedd i bobl gymryd rhan yn y gemau;
- Cyfeiriwyd at gyflwyno’r pecynnau debyd uniongyrchol newydd a gynigir gan y canolfannau hamdden a dywedwyd bod defnyddwyr gwasanaeth wedi mynegi siom nad oes pecyn debyd uniongyrchol i deuluoedd yn cael ei gynnig ar gyfer cyfleusterau hamdden ar yr Ynys. Dywedodd y Rheolwr Masnachol Hamdden bod cynnig pecyn debyd uniongyrchol i deuluoedd yn cael ei ystyried ac roedd yn cydnabod y gall fod yn ddrud i deulu cyfan ddefnyddio’r cyfleusterau hamdden ar yr un pryd dan y trefniadau talu presennol. Ychwanegodd fod y canolfannau’n cynnig gwersi nofio i blant ieuengach yn awr a bydd hynny’n annog teuluoedd ifanc i ddefnyddio’r cyfleusterau. Ychwanegodd y Rheolwr Masnachol Hamdden, oherwydd bod lefelau gordewdra ymysg plant dan 5 ar Ynys Môn yn parhau i fod yn uchel, bod angen i’r gwasanaeth hamdden weithio gyda’r gwasanaeth addysg i hyrwyddo’r cyfleusterau sydd ar gael er mwyn hyrwyddo byw’n iach.
- Cyfeiriwyd at y Cynllun Hamdden sy’n cyfeirio at y cyfleoedd y bydd Rhaglen Moderneiddio Ysgolion y Cyngor Sir yn eu cynnig i integreiddio canolfannau hamdden yn well â chyfleusterau addysg, neu eu cydleoli, a gofynnwyd sut mae’r Awdurdod yn bwriadu ymgorffori’r Cynllun Hamdden yn y rhaglen moderneiddio ysgolion. Dywedodd Arweinydd y Cyngor, gan y cynhelir ymgynghoriad yn ardal Amlwch ynghylch y rhaglen foderneiddio ysgolion yn y dyfodol, y bydd hynny’n rhoi cyfle i integreiddio cyfleusterau hamdden a chyfleusterau addysg yn ardal Amlwch, pe bai hynny’n gynaliadwy ac yn fforddiadwy.

**PENDERFYNWYD argymell i’r Pwyllgor Gwaith ei fod yn cymeradwyo’r Cynllun Hamdden.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

**7 BLAEN RAGLEN WAITH**

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

**PENDERFYNWYD nodi’r Rhaglen Waith hyd at fis Ebrill 2020.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 yb

**Y CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 21ain Fedi 2020 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol 2019/20 y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Cyflwyno cynnydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod 2019/20 |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cyng. Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Annwen Morgan, Prif Weithredwr |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Nonn Hughes. Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn<br><br>01286 679906<br>NonnGwenllianHughes@gwynedd.llyw.cymru |
| **Aelodau lleol:** | Dim yn berthnasol i unrhyw ward benodol. |

**1 – Argymhelliad/ion**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini nodi:

1. Cynnydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae'r Cyngor yn darparu amrywiaeth o wasanaethau fydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant unigol, yn ogystal â chyfrannu at a chefnogi amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorth i Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd.

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| 1. I ba raddau mae ffrydiau gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyfrannu at lesiant trigolion Gwynedd a Môn a pha effaith mae'r gwaith wedi ei gael ar gymunedau?<br><br>2. Pa mor effeithiol yw trefniadau monitro y Bwrdd o ran sicrhau bod amcanion yn cael eu gweithredu oddi mewn i'r amserlen?<br><br>3. Pa wersi bu i'r Bwrdd eu dysgu yn sgil y cynnydd hyd yma a sut bwriedir defnyddio'r gwersi yn y dyfodol?<br><br>4. I ba raddau mae rhaglen waith y Bwrdd wedi cael ei haddasu / angen cael ei haddasu yn sgil argyfwng pandemig Covid-19?<br><br>5. Sut y bwriedir ymgorffori canfyddiadau adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru (Hydref, 2019) yn y modd mae'r Bwrdd yn gweithredu?<br><br>6. Beth fydd blaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer 2021/22 a sut penderfynwyd ar y meysydd hyn? |

## 5. – Cefndir / Cyd-destun

### 5.1 Cyflwyniad a chyd-destun

**5.1.1** Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yw gwella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn amlygu saith nod llesiant a pum ffordd o weithio er mwyn rhoi pwrpas cyffredin i gyrff cyhoeddus.

**5.1.2** Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwynedd ac Ynys Môn yn 2016, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf). Yn wir sefydlwyd BGC ar gyfer pob Awdurdod Lleol yng Nghymru i sicrhau cydweithio ymysg cyrff cyhoeddus i greu gwell dyfodol ar gyfer pobl Cymru. Y penderfyniad a wnaethpwyd yng ngogledd Orllewin Cymru oedd sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i Ynys Môn fyddai'n *cydweithio* efo Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd.

**5.1.3** Yn ystod 2017 rhannodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn ein cymunedau yn 14 o ardaloedd llai er mwyn cynnal gwaith ymchwil manwl, a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Cyhoeddwyd y wybodaeth ar ffurf yr Asesiadau Llesiant. Defnyddiwyd y wybodaeth a gasglwyd o'r asesiadau i lunio blaenoriaethau'r BGC sydd wedi eu cadarnhau yn y Cynllun Llesiant (2018). Cytunwyd ar y blaenoriaethau canlynol:

- Yr iaith Gymraeg
- Cartrefi ar gyfer bobl leol;
- Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau;
- Effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau;
- Iechyd a gofal oedolion a Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc.

**5.1.4** Fel y nodwyd yng Nghylch Gorchwyl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mae gan y Bwrdd bedwar aelod statudol, ynghyd â chyfranogwyr gwadd sy'n cyfrannu at ddyletswyddau'r Bwrdd. Mewn perthynas ag unrhyw newid diweddaraf i aelodaeth y BGC mae Aled Jones-Griffith o Grŵp Llandrillo a Menai ac Andrew Edwards o Brifysgol Bangor bellach yn gyfranogwyr a wahoddwyd.

**5.2 Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**

**5.2.1** Yn amgaeedig cyflwynir adroddiad blynyddol y BGC ar gyfer y cyfnod 2019/20. Ers mis Mawrth 2020 rydym wedi wynebu argyfwng iechyd byd eang a chyfnod heriol iawn. Defnyddiwyd yr adroddiad i hunan-fyfyrio ar waith y BGC hyd yma, a chyfeirir yn gryno at rol y BGC yn y gwaith o adfer ein cymunedau o'r argyfwng. Strwythurir yr adroddiad i gyfeirio at gynnydd gwaith pedwar is-grŵp y BGC. Pedwar is-grwp sydd gan y BGC bellach gan eu bod wedi ymrwymo i'r flaenoriaeth tlodi trwy gytuno i gadw trosolwg ar waith sy'n digwydd yn y maes tlodi gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn y lle cyntaf. Mae gan yr Awdurdodau Lleol eu trefniadau a'u cynlluniau ar gyfer ymdrin â thlodi. Maent wedi cydweithio gyda nifer o bartneriaid yn y gorffennol ar raglenni allweddol tlodi, ac yn parhau i gydweithio gydag ystod eang o sefydliadau.

**5.2.2** Mae arweinyddion is-grwpiau'r BGC yn aelodau o'r BGC, a'u cyfrifoldeb hwy fu cyflwyno cynllun gweithredu a chamau i'w cyflawni yn ystod cyfarfodydd y BGC yn 2019/20.

**5.2.3** Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r is-grwpiau wedi gweithredu yn unol â'r pum egwyddor datblygu gynaliadwy cenedlaethol. Cytunodd y BGC trwy'r Cynllun Llesiant eu bod am ychwanegu dwy egwyddor sy'n bwysig i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn Sef yr Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb. Mae pob un o'r is-grwpiau wedi sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn llinyn euraidd sy'n rhedeg drwy eu gwaith. Bydd yr is-grwpiau hefyd yn parhau i roi sylw i anghydraddoldeb ac anfantais trwy'r asesiadau effaith perthnasol.

**5.2.4** Mae'r egwyddorion datblygu cynaliadwy yn creu fframwaith i'r BGC gydweithio ar y blaenoriaethau, ystyried y gwersi a ddysgwyd a mynd i'r afael â heriau bydd y gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu i'r dyfodol. Mae hyn fwyfwy perthnasol wrth i ni ystyried yr argyfwng. Yn ystod y misoedd diwethaf wynebodd cymunedau Gwynedd ac Ynys Môn gyfnod heriol tu hwnt. Arweiniodd at newidiadau yn ein ffyrdd o fyw, gweithio, a chysylltu gydag eraill. Mae'r cyrff cyhoeddus yn symud tuag at adferiad gan annog cydymffurfiad gyda'r mesurau a chyfarwyddiadau i leihau'r risg o ledaeniad yr haint, a symud tuag at y "normal newydd". Byddwn yn parhau i roi sylw i waith craidd y BGC, ond hefyd yn rhoi ystyriaeth bellach i gyflawni mewn modd sy'n cydnabod effaith gadarnhaol a negyddol y gwersi a ddysgwyd wrth i ni gyd ymatebi i'r argyfwng COVID-19.

**5.2.5** Cylchredwyd yr adroddiad blynyddol i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod mis Gorffennaf, er sylwadaeth. Bydd Pwyllgor Sgriwtini Ynys Môn yn cael y cyfle i'w graffu ar 21ain Fedi 2020, a Phwyllgor Craffu Gwynedd yn cyhoeddi dyddiad ar gyfer ei graffu maes o law. Yn unol â gofynion y Ddeddf cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Gorffennaf, a hynny ar y wefan ganlynol: https://www.llesiantgwyneddamon.org Penderfynwyd yn ystod yr argyfwng i gyhoeddi'r adroddiad cyn ei graffu. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau graffu eu hadroddiadau blynyddol cyn eu cyhoeddi, ond ei bod yn arfer da gwneud hynny.

**5.3 Trefniadau Craffu**

**5.3.1** Er mwyn cael atebolrwydd democrataidd i gynnydd gwaith y BGC mae'r ddeddf wedi gosod gofyniad ar gynghorau i ddynodi Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i graffu ar waith y BGC. Felly mae gwaith BGC Gwynedd ac Ynys Môn yn cael ei graffu gan Bwyllgorau Craffu Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn ar

bwyntiau penodol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015) a'r canllawiau cenedlaethol cysylltiedig[1] yn nodi tair rôl ar gyfer pwyllgorau craffu Awdurdodau Lleol sef:

- Adolygu trefniadau llywodraethu'r BGC
- Bod yn Ymgynghorai statudol ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant
- Monitro cynnydd ymdrechion y BGC wrth weithredu'r Cynllun Llesiant.

**5.3.2** Golygir hyn fod y pwyllgorau craffu yn cael cyfle i graffu perfformiad ac effaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cynhaliwyd trafodaethau rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn ar yr opsiwn o sefydlu un panel craffu, i weithredu ar draws y ddwy sir i graffu gwaith y BGC. Gwerthuswyd gwahanol opsiynau gan reolwyr craffu'r ddau gyngor a daethpwyd i'r casgliad nad oeddent yn argymell sefydlu panel ar hyn o bryd ond yn hytrach am ganolbwyntio ar alinio amserlenni a chysondeb trefniadau craffu ar draws y ddwy Sir a pharhau efo'r trefniadau craffu bresennol. Bydd modd adolygu'r trefniadau hyn rhwng y ddau gyngor eto maes o law**.**

| 6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| **6.1** Bydd yr is-grwpiau cyflawni yn paratoi asesiadau effaith cydraddoldeb ac ieithyddol, ble mae hynny'n briodol, i gyd-fynd a'u cynlluniau gweithredu. Bydd yr asesiadau effaith yn ddogfennau byw fydd yn newid a datblygu ochr yn ochr â'r gwaith cyflawni. |

| 7 – Oblygiadau Ariannol |
|---|
| - |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| 1. Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn 2019/20 |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| 1. Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn |

[1] Canllawiau ar gyfer Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol ar graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus



# Adroddiad Blynyddol 2019-2020

# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn

www.llesiantgwyneddamon.org


# Rhagair

Dyma gyflwyno ail adroddiad blynyddol ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i Wynedd ac Ynys Môn, a hynny i gyd-fynd â gofynion Deddf (Y Ddeddf) Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015). Ers mis Mawrth 2020 mae cyrff cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn, a'r wlad gyfan wedi wynebu argyfwng a chyfnod heriol iawn. Er gwaethaf hynny rydym wedi paratoi'r adroddiad blynyddol yma er mwyn hunan-fyfyrio ar waith y BGC ac i rannu pa wahaniaeth mae'r BGC wedi ei wneud i lesiant Gwynedd ac Ynys Môn yn unol â'r pum ffordd o weithio. Fel mae'r Ddeddf yn ei amlinellu, mae'r term llesiant yn ei gyfanrwydd yn golygu llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylchedd a diwylliannol.


Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae sefydliadau unigol y BGC wedi parhau i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau sy'n cyflawni eu hamcanion llesiant unigol, yn ogystal â chyfrannu at amcanion llesiant y BGC. Nid oes llawlyfr ar gyfer mesur llwyddiant gwaith y BGC, felly diweddariad ar ymdrechion y BGC yn ystod 2019/20 sy'n cael ei gyfleu yma.

Wrth edrych ymlaen bydd gan y BGC gyfraniad enfawr i'w gynnig wrth i ni gyd ymdrechu i ail adeiladu ein cymunedau a rhoi'r sylw haeddiannol i faterion llesiant. Bydd y BGC yn parhau i roi sylw i'w waith craidd, sef gwella llesiant ein cymunedau, ond yn ogystal rhagwelir fod gan y BGC rôl allweddol i'w chwarae wrth i ni ymateb ar y cyd i'r effeithiau mae Covid-19 wedi'i gael ar ein cymunedau, ac wrth i ni fel cyrff cyhoeddus ddechrau cynllunio am adfer o'r pandemig. Byddwn hefyd yn parhau i fod eisiau clywed gan ein cymunedau, trigolion, partneriaethau a busnesau – os oes gennych gwestiwn neu sylw gallwch gysylltu gyda ni drwy post@llesiantgwyneddamon.org

**Emyr Williams**
***Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus***



# Y daith hyd yma i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn




Yn ystod 2017 rhannodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn ein cymunedau yn 14 o ardaloedd llai er mwyn cynnal gwaith ymchwil manwl a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Unwaith roedd y data wedi ei gasglu a'r gwaith ymchwil wedi ei gwblhau cyhoeddwyd llyfrynnau unigol ar gyfer pob un o'r 14 ardal. Mae'r llyfrynnau gwybodaeth ar gyfer pob ardal yn parhau i fod ar gael ar y wefan **www.LlesiantGwyneddaMon.org** Defnyddiwyd y wybodaeth a gasglwyd o'r asesiadau i lunio blaenoriaethau'r BGC. Yn 2018 cyhoeddwyd y Cynllun Llesiant sy'n amlinellu'r meysydd blaenoriaeth hynny: Yr iaith Gymraeg; Cartrefi ar gyfer bobl lleol; Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau; Effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau; Iechyd a gofal oedolion a Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf mae is-grwpiau'r BGC wedi arwain ar y meysydd blaenoriaeth yma, ac wedi canolbwyntio ar waith cyflawni ar y cyd. I wneud hyn mae'r is-grwpiau wedi penderfynu bod angen iddynt ddilyn y pum ffordd o weithio (a'r ddwy ffordd ychwanegol a osodwyd gan BGC Gwynedd ac Ynys Môn o Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg) sef:

Cydweithio

Hir-dymor

Cynnwys

Integreiddio

Atal

Iaith Gymraeg

Cydraddoldeb

# Diweddariad

Mae gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn bellach bedwar is-grŵp sy'n gyfrifol am y meysydd blaenoriaeth ganlynol:

- Yr Iaith Gymraeg
- Newid Hinsawdd
- Cartrefi ar gyfer pobl leol
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ceir isod adroddiad ar gynnydd yr is-grwpiau a'r gwaith cyflawni sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

# Newid Hinsawdd



Rydym wedi gweld effaith newid yn yr hinsawdd ar ein cymunedau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda chymunedau a chartrefi wedi wynebu llifogydd difrifol. Daeth cymunedau a phartneriaid ynghyd i ddelio gyda'r digwyddiadau yma a dangoswyd gwir wytnwch ein cymunedau.
Mae'r is-grŵp Newid Hinsawdd wedi ei sefydlu er mwyn annog cydweithio rhwng y cyrff cyhoeddus a'n cymunedau ar sut i ymdrin â bygythiadau i'n cymunedau yn sgil newidiadau hinsawdd i'r dyfodol. Bydd angen i'n cymunedau fod yn paratoi eu hunain, adnabod beth yw eu rôl, a chydweithio gyda'r cyrff cyhoeddus ar bwyntiau penodol.

Mae'r is-grŵp wedi penderfynu ar y camau gweithredu canlynol:

## 1. Sefydlu Fframwaith Rhanbarthol

Trefnwyd digwyddiad gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarth gogledd Cymru yn ystod mis Medi 2019, i rannu arfer dda a thrafod syniadau ar sut gallwn gydweithio i fynd i'r afael â materion amgylcheddol, a newid hinsawdd yn benodol. Bu arbenigwyr amgylcheddol o bartneriaid cyhoeddus a'r trydydd sector yn trafod camau gweithredu i ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd, gwaith amgylcheddol a sut i symud ymlaen â hyn. Y consensws cyffredinol oedd bod angen trefniadau rhanbarthol i gefnogi gwaith amgylcheddol.

## 2. Adnabod y dulliau strategol a chydweithredol

Mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar adnabod dulliau strategol a chydweithredol o addasiad yn yr hinsawdd, a thrafodaethau wedi cychwyn ar ardaloedd daearyddol a chymunedau o ddiddordeb penodol a fyddai yn elwa o gynllunio ar gyfer addasiad hinsawdd. Yn dilyn y sefyllfa o argyfwng Covid-19 mae'r gwaith yma wedi'i oedi ar hyn o bryd ond ni all yr is-grŵp or-bwysleisio pwysigrwydd ail afael yn y gwaith yn fuan iawn.

Mae is-grŵp yn gweithredu nifer o'r ffyrdd o weithio sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

- Mae deall anghenion cymunedau penodol yn ein galluogi i gynllunio ar gyfer yr **hir-dymor**
- Gwaith craidd yr is-grŵp yw **cydweithio**, gyda nifer o gyrff gyhoeddus a'n cymunedau
- Bydd **cynnwys** ein rhanddeiliaid yn ran annatod o waith yr is-grwp

# Yr Iaith Gymraeg

Mae'r Iaith Gymraeg yn parhau i fod yn bwysig i gymunedau Gwynedd ac Ynys Môn ac rydym fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eisiau gweld yr Iaith yn ffynnu i genedlaethau'r dyfodol. Gwyddwn yng nghanol yr holl argyfwng yn sgil Covid-19 ei bod yn anodd cynnal rhai gwasanaethau, ond mewn cyfnod o ansicrwydd o'r fath mae'r gallu i gyfathrebu yn yr Iaith sydd fwyaf cyfforddus i'r unigolyn yn hollbwysig. Rydym ni fel cyrff cyhoeddus wedi ceisio sicrhau fod y dinesydd yn cael parhau i gysylltu ag ymwneud a'r cyrff cyhoeddus yn eu dewis Iaith.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r is-grŵp Iaith wedi canolbwyntio yn bennaf ar gydweithio i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Yn benodol hyrwyddo'r Gymraeg fel yr Iaith ddewis ar gyfer cyfathrebu'n fewnol yn y cyrff cyhoeddus, ac wrth gyfathrebu efo'r cyhoedd.

Mae rhai o bartneriaid y BGC wedi bod yn cyfrannu at brosiect o'r enw Arfer, sy'n cael ei arwain gan Brifysgol Bangor. Mae'r prosiect yn ymwneud â deall arferion siaradwyr sydd ddim mor hyderus/ cyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith, drwy edrych ar seicoleg ymddygiad. Bwriad y gwaith yw creu pecyn hyfforddiant fydd yn cynorthwyo'r cyrff cyhoeddus i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg staff eu sefydliadau. Yn ystod y misoedd diwethaf roedd y prosiect am fod yn canolbwyntio ar ganlyniadau a gwerthusiad ohono. Yn anffodus bydd rhaid gohirio'r weithgaredd yma nes bydd hi'n ddiogel i barhau.

Mae'r is-grŵp hefyd wedi bod yn ystyried sut fyddai modd iddynt gydweithio er mwyn creu teclyn i gynorthwyo'r cyrff cyhoeddus i asesu effaith eu penderfyniadau ar y Gymraeg. Mae gwaith tebyg ar y gweill yn rhanbarthol ym maes cydraddoldeb ac mae'r is-grŵp yn awyddus i ymestyn y gwaith yna i faes y Gymraeg hefyd.

Un o'r prosiectau eraill sy'n cael ystyriaeth gan yr is-grŵp yw prosiect sy'n ymwneud ag ymddygiad ieithyddol mewn derbynfeydd. Bwriad yr is-grŵp yw i arwain prosiect fydd yn treialu gwahanol fathau o ymyraethau ac yna yn gallu darparu arweiniad i staff derbynfeydd o wahanol sefydliadau cyhoeddus ynghylch sut mae annog defnydd o'r Gymraeg ymysg defnyddwyr gwasanaeth. Nod y prosiect yw i gynyddu hyder a sgiliau'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â sefydliadau cyhoeddus.

Rhagwelir y byddai gan brosiect o'r fath gwersi i'w rhannu yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Bydd hefyd yn cyflwyno newidiadau i'r derbynfeydd rheiny oedd efallai llai parod i annog defnydd o'r Gymraeg. Fel rhan o'r gwaith yma, bydd yn hanfodol i'r is-grŵp gydweithio efo'n cymunedau er mwyn ceisio barn y cyhoedd a deall eu harferion ieithyddol yn well e.e. drwy grwpiau ffocws.

Mae Is-grŵp yn gweithredu nifer o'r ffyrdd o weithio sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'r ffyrdd o weithio a gytunwyd yn ychwanegol gan y BGC sef yr Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb.

- Deddf **Cydraddoldeb** 2010, Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yw'r prif ddeddfwriaethau ym maes cydraddoldeb a'r Gymraeg fydd yr is-grŵp yn eu hystyried wrth gyflawni eu gwaith

- Un o allbynnau'r is-grŵp yw sicrhau fod yr Iaith **Gymraeg** yn rhan naturiol o waith Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn a bod y Gymraeg yn ganolbwynt i'w gweithgareddau.

- Byddwn yn gweld **cydweithio** yn benodol i godi ymwybyddiaeth, rhannu arferion da, datblygu sgiliau a hyder y gwasanaethau cyhoeddus i ddefnyddio'r Gymraeg gyda defnyddwyr gwasanaeth er mwyn eu denu a'u hannog i wneud defnydd o'r Gymraeg dro ar ôl tro

- Bydd yr is-grŵp yn **cynnwys** barn y cyhoedd ac eraill sydd â diddordeb yn y gwaith wrth iddynt gyflwyno prosiectau newydd.



# Cartrefi ar gyfer pobl leol

Dywedodd ein trigolion a'n cymunedau wrthym yn ystod cyfnod ymgynghori o'r Asesiadau Llesiant fod angen mwy o dai fforddiadwy yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cytunodd  Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwynedd ac Ynys Môn felly i flaenoriaethu gwaith ar ddatblygu prosiectau tai fforddiadwy ar y cyd, a hynny er mwyn diwallu anghenion ein cymunedau. I'r diben hwnnw mae'r BGC wedi cytuno i ystyried defnyddio dulliau adeiladu o natur arloesol ar gyfer y tai. Gall hyn olygu tai pren ynni isel, tai "modiwlar" ac efallai arbrofi hefo'r model arloesol o dai sy'n gallu addasu i newidiadau yn ein hinsawdd. Mae'n brosiect sydd hefyd yn canolbwyntio ar gaffael  ac yn annog nifer o gyrff cyhoeddus i ddatblygu tai arloesol ar y cyd er mwyn cyflawni arbedion maint.

Rhannau cyntaf o'r prosiect oedd cytuno ar fanyleb y math o dai arloesol dan ystyriaeth ac adnabod safleoedd posib ar gyfer y datblygiadau tai hynny. Mae nifer o'r sefydliadau cyhoeddus eisoes wedi adnabod a chyflwyno safleoedd o fewn eu meddiant i'w ystyried  ar gyfer y datblygiadau. Mae gwaith yr is-grŵp wedi parhau yn ystod yr argyfwng Covid-19 a chamau nesaf arfaethedig yr is-grŵp fydd gwerthuso'n llawn hyfywedd ariannol y datblygiadau ynghlwm â'r safleoedd dan sylw ac yna, cadarnhau sut orau i ariannu y datblygiadau  a chadarnhau amserlen cychwyn ar y datblygiadau.

Mae'r is grŵp wedi bod yn trafod eu cynlluniau efo Llywodraeth Cymru i sicrhau fod gwaith yr is-grŵp yn cyd-fynd â gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer tai arloesol a fforddiadwy.

Mae'r Is-grŵp yn gweithredu nifer o'r ffyrdd o weithio sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- Mae'n cyfrannu at gyflawni cynlluniau **hir-dymor** y sefydliadau sydd ynghlwm â'r prosiect.
- Mae'r prosiect yn annog **cydweithio** rhwng nifer fawr o sefydliadau cyhoeddus.




# Iechyd a Gofal

Mae'r is-grŵp iechyd a gofal integredig wedi ei sefydlu a'r pwrpas yn gryno yw i *'helpu unigolion i fyw eu bywydau fel y dymunant'* a phan fydd angen *am ymyrraeth iechyd neu ofal ein bod yn 'darparu'r gefnogaeth briodol' er mwyn iddynt allu dychwelyd i'r bywyd y dymunir.* I lawer o bobl, mae hynny'n golygu gallu cael gwasanaethau a chymorth yn y cartref neu'n agos at gartref yn hytrach nag mewn ysbytai. Mae'r weledigaeth yma yn cyd-fynd gyda strategaeth Llywodraeth Cymru 'Cymru Iachach' sydd â'r weledigaeth strategol o ddatblygu gwasanaethau, a'r angen i drawsnewid y modd yr ydym yn gweithio i gefnogi unigolion o fewn ein cymunedau.

Cyfrifoldeb yr is-grŵp iechyd a Gofal yw goruchwylio gwaith y ffrydiau / prosiectau canlynol: Oedolion, Plant, Anableddau Dysgu, Iechyd Meddwl a Thrawsnewid Cymunedol. Mae'r ffrydiau gwaith yma yn cyd-fynd â meysydd blaenoriaeth y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ar gyfer integreiddio.

Mae parodrwydd i gydweithio ac ewyllys da aelodau'r Bwrdd yn angenrheidiol ar gyfer cefnogi gwaith yr is-grŵp yma. Cefnogir y gwaith yn ogystal gan y Gronfa Gofal Integredig ledled Cymru (Llywodraeth Cymru). Ers dechrau Rhagfyr 2019, mae'r Tîm Trawsffurfio yn gyflawn gydag un arweinydd yn cefnogi pob un o'r 8 ardal 'Tîm Adnoddau Cymunedol' ar draws Gwynedd a Môn. Hyd yma, mae:

- **Gweithdai wedi eu cynnal ym mhob un o'r 8 ardal 'Tîm Adnoddau Cymunedol' (TAC) i adnabod y blaenoriaethau ar gyfer sefydlu trefniadau gweithio'n integredig effeithiol rhwng iechyd a gofal, a sefydlu methodoleg er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r cyfyngiadau presennol.**

- **Mae gwaith yn parhau yn rhanbarthol i sefydlu cysylltedd TG priodol yn yr adeiladau fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer gofod swyddfa i'r TAC.**

- **Prosiect ar y gweill i archwilio sut gall system WCCIS (Wales Community Care Informatics System) gefnogi gweithio integredig a rhoi profiadau gwell i ddinasyddion o'r system iechyd a gofal.**

- **Hyfforddiant 'Meddwl ar Ffurf Systemau' yn cael ei gynnal.**

- **Trafodaethau yn digwydd ar draws Gwynedd ac Ynys Môn ar sut i newid diwylliant er mwyn cefnogi'r gwaith trawsnewid.**





Mae'r is-grŵp Iechyd a Gofal yn  gweithredu nifer o'r ffyrdd o weithio sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn cyd-fynd a llawer o'r egwyddorion dylunio cenedlaethol sydd yn 'Cymru Iachach' trwy:

- roi ystyriaeth i dueddiadau'r dyfodol ac ymateb i newidiadau mewn demograffeg
- ymateb i faterion megis gordewdra ymhlith plant, mae gan hyn oblygiadau iechyd yn y tymor byr a **hir**
- roi cynaliadwyedd ein system iechyd yn allbwn yr is-grŵp er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol
- datblygu model **ataliol**
- **Integreiddio** ein gwasanaethau iechyd a gofal er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau ein trigolion
- gydnabod ystod eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles (gan gynnwys addysg, tai, llai o ddigartrefedd, twf economaidd, adfywio, hamdden a'r amgylchedd).
- sylweddoli'r buddiannau o **weithio mewn partneriaeth.**

Un o gamau nesaf y grŵp oedd trefnu gweithdy er mwyn cynnal trafodaeth eang ar draws nifer o wasanaethau iechyd a gofal - er mwyn ystyried beth yw'r diffygion a beth yw'r camau cydweithredol sydd eu hangen er mwyn ymateb iddynt. O ganlyniad i argyfwng Covid-19 bydd rhaid gohirio'r gweithdy a chanfod dyddiad arall yn y dyfodol agos i'w gynnal.

# Tlodi

Mae tlodi yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r BGC er nad oes is-grŵp yn gyfrifol am arwain ar y gwaith ar hyn o bryd. Mae'r BGC wedi ymrwymo i'r flaenoriaeth, trwy gytuno i gadw trosolwg ar waith sy'n digwydd yn y maes tlodi gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn y lle cyntaf. Mae gan yr Awdurdodau Lleol eu trefniadau a'u cynlluniau ar gyfer ymdrin â thlodi. Maent wedi cydweithio gyda nifer o bartneriaid yn y gorffennol ar raglenni allweddol tlodi, ac yn parhau i gydweithio gydag ystod eang o sefydliadau. Cafwyd cyflwyniad ar dlodi gan y ddau Gyngor yn ystod dau o gyfarfodydd y BGC ac fe gytunwyd bod gwaith sylweddol yn digwydd ar draws Gwynedd ac Ynys Môn. Er enghraifft yng Ngwynedd mae'r Cyngor yn cydweithio ar Raglen Cefnogi Llesiant gyda'r nod o roi'r gefnogaeth gywir, ar yr amser cywir i gefnogi Llesiant Pobl Gwynedd . Byddent yn gwneud hyn drwy:

- Adeiladu ar gryfderau ein pobl / cymunedau
- Mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau
- Atal problemau rhag gwaethygu
- Lleihau'r galw am ymyraethau statudol

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn datblygu strategaeth ataliol er mwyn ymateb i'r flaenoriaeth tlodi. Mae eu hamcan yn canolbwyntio ar gefnogi pobl i helpu eu hunain, o fewn eu cymunedau ac mewn partneriaeth. Ym Môn hefyd bydd strategaeth o'r fath yn datblygu gwydnwch ac annibyniaeth o fewn ein cymunedau.

Felly bydd y BGC yn adeiladu ar lwyddiannau'r ddau Gyngor er mwyn ymateb i'r flaenoriaeth tlodi. Er hynny pwysleisiwn fod gan bob un o bartneriaid eraill y Bwrdd hefyd drefniadau a chynlluniau eu hunain i ymdrin â thlodi. Daeth hynny yn amlycach byth yn ystod cyfnod y pandemig, ble dynnwyd pawb ynghyd i edrych ar ôl ein cymunedau mwyaf bregus. Byddwn y BGC yn parhau i ymgysylltu a chydweithio â'n cymunedau ac adeiladu ar yr arfer dda a'r gwytnwch cymunedol ag arddangoswyd.

# Cynnydd a wnaethpwyd gan y BGC tu allan i waith yr is-grwpiau

Yn ystod cyfnod yr Asesiadau Llesiant (2017) mynegodd trigolion Gwynedd ac Ynys Môn fod y pellter oddi wrth wasanaethau a chyfleusterau, a diffyg trafnidiaeth gyhoeddus addas yn broblem iddynt. Penderfynodd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarth gogledd Cymru gomisiynu Cyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam  i ymgymryd â phrosiect ymchwil ar 'Asesu rhwystrau trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru: Deall y materion a ble maent yn bodoli'. Bydd canfyddiadau'r gwaith ymchwil yn cael ei rannu maes o law. Mae'r BGC yn ystyried fod gwaith ymchwil parhaus mewn meysydd perthnasol yn bwysig ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Mae sgiliau a chyflogaeth yn allweddol i gyfrannu at lesiant unigolion a'n cymunedau. Mae'r BGC yn benderfynol nad ydynt am ddyblygu gwaith sydd eisoes yn digwydd gan sefydliadau, ac felly wedi ei gwneud hi'n glir eu bod am weithio'n agos efo'r Bwrdd Uchelgais Economaidd (BUE) ar faterion sgiliau a chyflogaeth. Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi mabwysiadu ffrwd gwaith sgiliau a chyflogaeth y BUE. Mae gan y Bartneriaeth Sgiliau weledigaeth glir o greu system gynhwysol, sy'n wydn ac yn medru addasu i gyfleoedd a heriau sgiliau a chyflogaeth. Mae BGC Gwynedd ac Ynys Môn yn gweld modd o allu cyfrannu at waith y Bartneriaeth Sgiliau trwy gydweithio ar rwystrau a wynebir gan sefydliadau a chyflogwyr yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn benodol, er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o beth yw'r sefyllfa o ran pa swyddi fydd angen eu llenwi ar gyfer y deng mlynedd nesaf a pha swyddi na ellir eu llenwi ar hyn o bryd.



# Arolwg o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (Swyddfa Archwilio Cymru: Hydref 2019)

Ym mis Hydref 2019 cyhoeddwyd adroddiad ar arolwg o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. **https://www.audit.wales/sites/default/files/press_releases/adolygiad-o-fyrddau-gwasanaethau-cyhoeddus-cymraeg.pdf** Cynhaliwyd yr adroddiad gan SAC ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. Nid adolygiad yn benodol ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn ydyw, ond yn hytrach adolygiad ar gyfer 19 o Fyrddau yng Nghymru. Fodd bynnag mae nifer o ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad yn berthnasol i BGC Gwynedd ac Ynys Môn ac mae'r BGC eisoes wedi cychwyn rhoi sylw iddynt.

# Trefniadau monitro a chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Er mwyn cael atebolrwydd democrataidd i gynnydd gwaith y BGC mae'r ddeddf wedi gosod gofyniad ar gynghorau i ddynodi Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i graffu ar waith y BGC. Felly mae gwaith BGC Gwynedd ac Ynys Môn yn cael ei graffu gan Bwyllgorau Craffu Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn ar bwyntiau penodol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015) a'r canllawiau cenedlaethol cysylltiedig[1] yn nodi tair rôl ar gyfer pwyllgorau craffu Awdurdodau Lleol sef:

- **Adolygu trefniadau llywodraethu'r BGC**
- **Bod yn Ymgynghorai statudol ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant**
- **Monitro cynnydd ymdrechion y BGC wrth weithredu'r Cynllun Llesiant**

Golygir hyn fod y pwyllgorau craffu yn cael cyfle i graffu perfformiad ac effaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cynhaliwyd trafodaethau rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn ar yr opsiwn o sefydlu un panel craffu, i weithredu ar draws y ddwy sir i graffu gwaith y BGC. Gwerthuswyd gwahanol opsiynau a daethpwyd i'r casgliad nad oeddent yn argymell sefydlu panel ar hyn o bryd ond yn hytrach am ganolbwyntio ar alinio amserlenni a chysondeb trefniadau craffu ar draws y ddwy Sir a chario ymlaen efo'r trefniadau craffu bresennol. Bydd modd adolygu'r trefniadau hyn rhwng y ddau gyngor eto maes o law.

1 Canllawiau ar gyfer Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol ar graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

# COVID-19: Adfer

Yn ystod y misoedd diwethaf wynebodd gymunedau Gwynedd ac Ynys Môn gyfnod heriol tu hwnt. Arweiniodd at newidiadau yn ein ffyrdd weithio, a chysylltu gydag eraill. Mae'r cyrff cyhoeddus yn symud tuag at adferiad gan annog cydymffurfiad gyda'r  mesurau a chyfarwyddiadau i leihau'r risg o ledaeniad yr haint, a symud tuag at y "normal newydd".

Fel man cychwyn bydd y cyrff cyhoeddus yn ystyried effeithiau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol a rhagwelir rôl o gydweithio i'r BGC i drawsnewid sut mae gwasanaethau yn cael eu darparu. Byddwn yn parhau i roi sylw i waith craidd y BGC o wella llesiant a rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ganolog i'r holl waith adfer, ond yn rhoi ystyriaeth bellach i gyflawni mewn modd sy'n cydnabod effaith gadarnhaol a negyddol y gwersi a ddysgwyd wrth i ni gyd ymateb i COVID-19.

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **21 Medi, 2020** |
| **Pwnc:** | **Ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Covid-19** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Craffu ar ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Covid-19 gan ganolbwyntio'n benodol ar agweddau cymunedol a chydweithio** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Y Cynghorydd Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Arweinydd y Cyngor, a holl aelodau'r Pwyllgor Gwaith** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Annwen Morgan, Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Annwen Morgan, Prif Weithredwr**<br>**01248 752499**<br>**AnnwenMorgan2@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

## 1 - Argymhellion

**A1** Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio:

- nodi ymateb y Cyngor i'r pandemig hyd yn hyn a chytuno ar ymateb ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith
- cytuno ar ei flaenoriaethau ar gyfer craffu ar feysydd penodol o ymateb y Cyngor i'r argyfwng yn ystod 2020/21 a'r tu hwnt

**A2** Argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod y Byrddau Rhaglen yn cyflwyno adroddiadau cynnydd rheolaidd i'r ddau bwyllgor sgriwtini ar Gynllunio'r Adferiad a Chyflawni yn y Normal newydd

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Mae'r adroddiad hwn yn trafod ymateb y Cyngor i'r pandemig byd-eang o dan ddarpariaethau Deddf Argyfyngau Sifil Posib 2004, sy'n flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. Mae gan y Cyngor rolau a chyfrifoldebau penodol o dan y Ddeddf wrth baratoi ac ymateb i argyfwng ar lefel leol.

## 3 – Egwyddorion fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 – Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. A yw'r Cyngor wedi blaenoriaethu a rheoli ei adnoddau'n effeithiol mewn ymateb i'r argyfwng?
2. A yw gweithredoedd y Cyngor hyd yma wedi bod yn amserol ac yn effeithiol mewn ymateb i'r sefyllfa argyfwng?
3. A oes gan y Pwyllgor farn ar briodoldeb ac effeithiolrwydd ymateb y Cyngor hyd yma ac a oes unrhyw feysydd i'w datblygu a gwersi i'w dysgu?
4. I ba raddau mae'r Cyngor wedi cydweithio'n effeithiol gydag eraill i gefnogi trigolion, cymunedau a busnesau'r Ynys?
5. Pa mor gadarn yw cynllunio'r Cyngor ar gyfer yr Adferiad a'r Normal newydd?
6. Pa feysydd penodol o ymateb y Cyngor y byddai'r Pwyllgor yn dymuno eu blaenoriaethu yn ei flaen raglen waith yn ystod 2020/21 a'r tu hwnt?

**5 – Background / Context**

**1. CEFNDIR / CYD-DESTUN**

1.1. Mae Covid-19 yn glefyd heintus gyda nifer fawr o achosion ar hyn o bryd, sy'n effeithio ar dros 200 o wledydd ledled y byd[1], gan gynnwys y Deyrnas Unedig. Felly mae'n wir dweud bod y pandemig yn cael effaith bellgyrhaeddol. Mae'r cyfnod hwn **(rheoli'r ymateb brys i'r Pandemig, y Cyfnod Adfer a dychwelyd yn raddol i'r Normal newydd)** yn gyfnod heriol eithriadol i'r Cyngor a phob sefydliad cyhoeddus arall ar draws Cymru wrth i ni barhau i wynebu heriau argyfwng Covid-19. Mae hyn wedi golygu bod y Cyngor wedi newid ei ffordd o weithio o ganlyniad i'r argyfwng iechyd byd-eang. Isod mae crynodeb o ddyddiadau allweddol pryd / sut esblygodd yr argyfwng yn lleol:

- 10 Mawrth – Sefydlu Grŵp Cydlynu Strategol
- 18 Mawrth – Sefydlu Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng gan y Cyngor
- 23 Mawrth – Cyfnod clo i'r DU gyfan a gofyn i staff weithio gartref.

[1] Dywedodd Sefydliad Iechyd y Byd fod achosion mewn 2016 o wledydd, ardaloedd neu diriogaethau ar 05/08/2020

1.2. Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus wedi cyhoeddi papur ynghylch Craffu yn ystod y pandemig (https://www.cfps.org.uk/?publication=covid-19-guide-2-scrutiny).

2. **RHESYMEG AR GYFER CRAFFU AR Y PWNC**

Mae'r achos dros graffu ar ymateb y Cyngor i bandemig Covid-19 yn un hynod gryf:

- Yn ystod cyfnod argyfwng, mae llywodraethu ac atebolrwydd yn allweddol bwysig ac mae'n hynod bwysig bod Aelodau Etholedig a dinasyddion Ynys Môn yn cael sicrwydd bod y penderfyniadau a wneir yn briodol, yn amserol ac yn dryloyw
- Mae model arfer da'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn cyfeirio at yr angen i Bwyllgorau Sgriwtini Cynghorau graffu ar drosolwg o ymateb y sefydliad i Covid-19
- Yn lleol, mae cylchoedd gorchwyl y ddau bwyllgor yn hwyluso'r broses o osod ffiniau ar gyfer craffu ar y pwnc
- Mae bellach yn amserol i ni bwyso a mesur, a dysgu wrth symud ymlaen

**Amcanion y gwaith sgrwitini**

Cynigir bod pedwar pwrpas i graffu ar ymateb y Cyngor:

- mesur effeithiolrwydd y cydweithio lleol a rhanbarthol a ddigwyddodd yn ystod y pandemig, y datblygiadau a'r perthnasau cadarn a gafodd eu sefydlu a'u cryfhau
- ystyried y trefniadau llywodraethu o ran cydweithio, cyfathrebu a rhannu gwybodaeth
- cyfle i nodi gwersi i'w defnyddio i lywio ymateb y Cyngor i'r cyfnod Adfer ar gyfer y normal newydd
- cynorthwyo gyda'r gwaith paratoi ar gyfer unrhyw ymchwydd yn y dyfodol.

**YMATEB Y CYNGOR I'R PANDEMIG COVID-19**

3. **TREFNIADAU LLYWODRAETHU**

3.1 Mae cynlluniau argyfwng ar gyfer Covid-19 yn disgyn o dan darpariaethau Deddf Argyfyngau Sifil Posib 2004 ac arweinir y gwaith yn genedlaethol gan Lywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru. Rhoddwyd trefniadau llywodraethu ar gyfer cynlluniau argyfwng ar waith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol i arwain yr ymateb i'r pandemig. Ar lefel ranbarthol, mae hyn wedi'i arwain a'i gydlynu gan y Fforwm Gwytnwch Lleol (lle mae'r sector cyhoeddus yn cydweithio) trwy'r Grŵp Cydlynu Strategol (GCS). Mae'r Cyngor wedi cyfrannu'n llawn at waith is-grwpiau thematig penodol sy'n adrodd i'r GCS:

- Iechyd a gofal cymdeithasol
- Marwolaethau ychwanegol
- Y Cyfryngau
- Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)

3.2 Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn gyfrifol am benderfyniadau lleol ac am gwrdd â gofynion deddfwriaeth ac arweiniad cenedlaethol perthnasol. Bu rôl monitro ac adrodd hefyd trwy'r strwythurau llywodraethu i ddylanwadu a hysbysu. Parhaodd y GSC i fod yn weithredol tan ddiwedd mis Gorffennaf 2020 ac yna cafodd ei ddisodli gan y Grŵp Adfer Rhanbarthol (cyfeirier at baragraff 7.3 am y manylion).

3.3 Bu i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 14 Medi roi ystyriaeth i'r materion canlynol:

- ➢ trefniadau llywodraethu brys lleol
- ➢ darpariaeth PPE i staff y Cyngor
- ➢ lles preswylwyr a staff cartrefi gofal y Cyngor
- ➢ effaith ar gyllidebau'r Cyngor (yn cynnwys taliadau grant)
- ➢ adleoli staff y Cyngor
- ➢ galluogi gweithio'n ddiogel o bell a'r dyfodol
- ➢ diogelu unigolion bregus a materion lles ehangach y tu hwnt i gyfrifoldebau diogelu statudol
- ➢ rheoli TTP ar lefel leol

3.4 **Cyfathrebu ac ymgysylltu gydag Aelodau** - mae'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr wedi bod yn diweddaru Arweinwyr Grŵp yn gyson ac yn rheolaidd. Mae hyn wedi cynnwys diweddariadau dyddiol ar gyfer yr holl Aelodau Etholedig a staff, sesiynau briffio[2] rheolaidd i Aelodau ac adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith ar:

- **15/06/2020. Diweddariad ar ymateb y Cyngor hyd yma i'r argyfwng Covid-19.** Dolen i'r adroddiad isod: http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s15765/Ymateb%20y%20Cyngor%20i%20Covid-19.pdf?LLL=1
- **13/07/2020. Coronafeirws - Cynllunio'r adferiad cynnar.** Dolen i'r adroddiad isod: http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s15828/Gwaith%20Cynllunio%20Cynnar%20ar%20gyfer%20Adfer%20yn%20dilyn%20yr%20haint%20Coronafeirws.pdf?LLL=1
- **17/08/2020. Coronafeirws – Diweddariad ar gynllunio a chyflawni'r adferiad.** Dolen i'r adroddiad isod: http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s16155/Y%20Sefyllfa%20Ddiweddaraf%20ar%20Gynllunio%20a%20Chyflawni%20Adferiad%20or%20Coronafeirws.pdf?LLL=1

3.4 Gellir gweld cryn dipyn o fanylion am ymateb y Cyngor hyd yma trwy'r dolenni uchod i adroddiadau a gyhoeddwyd yn flaenorol.

3.6 Mae gwefan y Cyngor hefyd wedi'i diweddaru'n rheolaidd i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ein hymateb lleol i'r pandemig a materion sy'n ymwneud â gwasanaethau. Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol yn helaeth hefyd i gyfleu negeseuon a chyhoeddiadau allweddol.

**4. MEYSYDD RISG ALLWEDDOL**

Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor wrth arwain ac ymateb i'r argyfwng wedi cynnwys rheoli risgiau allweddol i warchod gweithlu'r Cyngor, trigolion, busnesau a chymunedau. Crëwyd cofrestr risg benodol o'r cychwyn cyntaf ac mae'n cael ei hadolygu a'i diweddaru bob wythnos. Mae'r risgiau allweddol wedi'u blaenoriaethu o ran amser ac ymdrech. Mae'r risgiau allweddol wedi cynnwys:

- cartrefi gofal
- profi, olrhain a diogelu (TTP)
- cyfarpar diogelu personol (PPE)
- delio ag achosion
- cefnogi teuluoedd bregus
- yr effaith ar sefyllfa ariannol y Cyngor
- yr effaith ar weithlu'r Cyngor

[2] Cynhaliwyd sesiynau Briffio i Aelodau ar 04/06/2020, 24/06/2020 a 02/07/2020

**5. MATERION PENODOL I'W CRAFFU**
**Craffu Pandemig Covid-19**

Gan fod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn gyfrifol am oruchwylio gwaith partneriaid ar yr Ynys yn ogystal â mesur a chraffu gwerth unrhyw waith cymunedol, mae'n gwneud synnwyr i'r Pwyllgor graffu ar **agweddau cymunedol** ymateb y Cyngor i argyfwng Covid-19.

**5.1 Allbynnau y Llif Gwaith Cymunedol (yn cynnwys mewnbwn Medrwn Môn a Menter Môn)**

- Mae'r holl wasanaethau o fewn Cyngor Sir Ynys Môn wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd er mwyn bodloni anghenion preswylwyr Ynys Môn yn ystod pandemig, ac mae anghenion ein preswylwyr wedi amrywio'n sylweddol drwy gydol y pandemig.

- Mae'r cydweithio rhwng meysydd gwasanaeth allweddol wedi bod yn rhagorol yn ystod y cyfnod hwn, ac mae hyn wedi cynnwys darpariaeth gwasanaeth creadigol a gwahanol iawn.

5.1.1. Yr her

- Cwrdd ag anghenion yr **HOLL** drigolion (gan gynnwys plant a'u teuluoedd) yn ystod y pandemig, a oedd yn golygu bod y Cyngor yn cydgysylltu ystod o brosiectau newydd ac arloesol gyda phartneriaid a'r trydydd sector.
- Mae'r Cyngor eisoes yn gweithio'n dda gyda phartneriaid a sefydliadau'r trydydd sector i gyflawni dyletswyddau anstatudol er mwyn gwella canlyniadau i drigolion Ynys Môn.
- Roedd y Pandemig yn golygu ein bod wedi gwella neu adeiladu ar ddarpariaeth a oedd eisoes yn bodoli ac ehangu ystod gyfan o wasanaethau ledled yr Ynys

5.1.2 Sut ymatebodd y Cyngor

a. Yn Ynys Môn, sefydlwyd Partneriaeth i ddarparu cefnogaeth i bobl fregus yn ein cymunedau yn ystod wythnosau cyntaf y pandemig. Gellir gweld y datganiad o weithio ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ynys Môn, Medrwn Môn a Menter Môn yma:
https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/ynys-mon-wedi-ymrwymo-i-gefnogi-gwirfoddolwyr-syn-helpu-pobl-fregus-yr-ynys

b. Datblygwyd canllawiau cymunedol ynghylch Covid -19 a gwybodaeth bwysig arall, gweler y ddolen isod. Mae'r ddolen hefyd yn cynnwys manylion cyswllt cydlynwyr cymunedol a chwmnïau danfon bwyd
c. Sefydlwyd Grŵp Llywio gyda swyddogion allweddol o'r tri sefydliad sy'n rhan o'r bartneriaeth a gweithredwyd tair ffrwd waith, sy'n cynnwys:
   - Ffrwd Waith Bwyd – yn cynnwys y banc bwyd a pharseli bwyd dan y prosiect Neges
   - Gwirfoddoli – gwirfoddolwyr arbenigol a chymunedol ledled yr ynys
   - Cyfeillio a llesiant (yn cynnwys y rheini a oedd yn cysgodi)

d. Adolygwyd pob llif gwaith trwy wneud galwadau cynhadledd penodol, sy'n digwydd naill bob pythefnos neu bob tair wythnos. Yn ystod cyfnod cychwynnol y pandemig, roedd y galwadau hyn yn cael eu gwneud yn wythnosol. Datblygwyd cylchlythyr partneriaeth a gyhoddwyd bob yn ail wythnos i roi gwybodaeth am weithgareddau pawb sy'n rhan o'r bartneriaeth a'r cynnydd gwaith.
e. Sefydlodd y Cyngor linell ffôn ymateb brys benodol gyda 9 opsiwn ac ar agor 7 diwrnod yr wythnos. Mae Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ar gael trwy ein Pwynt Mynediad Sengl yn y gymuned a hwylusir gan Medrwn Môn ac a gefnogir gan Gydlynwyr Asedau Lleol (asiantiaid cymunedol sy'n cysylltu unigolion ag asedau a gwasanaethau cymunedol - elfen allweddol o'n gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol).

f. Yn ystod y cyfnod clo, sefydlwyd dau fanc bwyd dros dro ar yr Ynys, un yn Llangefni a'r llall ym Mhorthaethwy. Gwnaed hynny trwy'r llif gwaith Bwyd sy'n cynnwys Gwasanaethau Tai, Banc Bwyd Ynys Môn a'r CAB. Roedd y banciau bwyd ychwanegol hyn yn gweithio ar y cyd â'r banciau bwyd sydd eisoes wedi hen sefydlu ac sy'n gweithredu yng Nghaergybi ac Amlwch.
g. Yn ystod y cyfnod clo a hyd at 28 Gorffennaf dosbarthwyd cyfanswm o 742 o becynnau bwyd o'r 4 banc bwyd sy'n gweithredu ar yr Ynys,
h. Sefydlodd Menter Môn, ar y cyd â bwyty Dylan's y prosiect Neges a oedd yn dosbarthu pecynnau bwyd, gan gynnwys prydau wedi'u paratoi'n ffres. Dosbarthwyd tua 3000 o becynnau bwyd i unigolion yn ystod y cyfnod.
i. Ymatebodd Medrwn Môn ac addasu fel bod ei weithgareddau yn canolbwyntio ac yn troi o gwmpas yr ymateb i Covid-19. Mae Medrwn Môn yn rhedeg Rhaglen Un Pwynt Mynediad a Phresgripsiynu Cymdeithasol yn y Sector Gwirfoddol o'r enw Linc Cymunedol Môn, a defnyddiwyd y gwasanaeth hwn gyda'i linell ffôn a'i gyfleuster e-bost i gydlynu elfen cymorth cymunedol yr ymateb. Defnyddiwyd y llinell ffon hon i nodi Gwirfoddolwyr a Chydlynwyr Timau Ardal dan arweiniad Gwirfoddolwyr. Fe'i defnyddiwyd hefyd i gyfeirio pobl oedd angen cymorth. Bu cynnydd yn nifer y bobl a gafodd gymorth gan Linc Cymunedol Môn yn y cyfnod COVID, gyda'r gwasanaeth yn derbyn 146 o atgyfeiriadau unigol newydd yn y cyfnod o 20 wythnos a gwnaed 134 o alwadau i'r llinell argyfwng a sefydlwyd gan y Cyngor i ddarparu gwybodaeth am gymorth cymunedol.
j. Roedd y dull hwn o weithredu'n golygu bod yn rhaid i Medrwn Môn newid y ffordd o ddarparu eu gwasanaethau, sef newid o gyswllt wyneb yn wyneb i wneud galwadau ffôn a pheidio ymweld â chartrefi oni bai bod hynny'n hollol angenrheidiol. Fodd bynnag, ni fu newid yn yr hyn yr oedd gan Medrwn Môn i'w gynnig o ran gwasanaethau, ac mewn sawl ffordd, llwyddwyd i wella'r hyn yr oeddent yn medru ei gynnig, gan eu bod wedi gallu cynorthwyo i sefydlu 36 o Dimau Cymorth Ardal dan arweiniad Gwirfoddolwyr a chanddynt dros 850 o wirfoddolwyr yn gweithredu. Arweiniodd hyn at sefydlu Banc Gwirfoddolwyr Môn. Roedd pobl fregus ar yr Ynys yn dal i allu derbyn neges o'r siop ac eitemau hanfodol, meddyginiaeth, parseli bwyd a gwybodaeth am ba wasanaethau oedd ar gael iddynt yn ystod yr 20 wythnos ddiwethaf.

k. Rhwng Mawrth - Mehefin, 2020 gwelodd y banciau bwyd gynnydd sylweddol yn y galw wrth i lawer o aelwydydd golli incwm oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo. Sefydlwyd dau fanc bwyd dros dro yn gyflym yn Llangefni a Chaergybi i helpu banciau bwyd sydd eisoes wedi'u lleoli yng Nghaergybi ac Amlwch.

l. Mae'r banciau bwyd wedi gweld galw am barseli bwyd yn cynyddu 400% o'i gymharu â'r adeg hon y llynedd:
  - Ers y cyfnod clo, dosbarthwyd cyfanswm o 1,440 o barseli gan bob banc bwyd ar yr Ynys. Mae hyn yn cyfateb i werth bron i £40k o fwyd. Trwy

amrywiol ymdrechion codi arian, mae gan y banciau bwyd ddigon o fwyd a chyllid os byddwn yn gweld ymchwydd yn y lefelau heintio. Mae banciau bwyd hefyd wedi arallgyfeirio i gynnig eitemau bwyd ffres a bwyd wedi ei rewi fel rhan o'u parseli bwyd.

- Mae'r prosiect Neges wedi danfon 2858 o barseli ar Ynys Môn. Ers canol mis Mawrth, mae'r prosiect Neges wedi cyflenwi mwy na 3,000 o flychau ar gyfer dros 8,000 o bobl, yr holl gynnwys wedi dod gan gyflenwyr cadwyni bwyd lleol.

5.1.3 Canlyniad

a. Roedd y gwaith partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Medrwn Môn o dan y Cyllidebau Cyfun UPM a'r Rhaglen Phresgripsiynu Cymdeithasol, Linc Cymunedol Môn, yn golygu y gellid rhannu gwybodaeth yn rhwydd ac yn llyfn am unigolion a fyddai angen help. Bu modd defnyddio gwahanol ddulliau i ymgysylltu â'r unigolion hynny er mwyn sicrhau na adawyd neb heb unrhyw fath o gefnogaeth. Cysylltwyd â dros 3,000 o bobl fel rhan o'r broses hon.
b. Roedd y broses o rannu gwybodaeth a'n gweithdrefnau adrodd ar y cyd hefyd yn golygu y gallai unigolion gael eu croesgyfeirio ymlaen at wahanol bartneriaid ac y gellid uwchgyfeirio materion yn gyflym ar gyfer ymateb pan oedd angen.
c. Derbyniodd y gwirfoddolwyr yn y Timau Cymorth Ardal ganllawiau cynhwysfawr, gyda Chydlynwyr Timau Ardal yn cael eu cysylltu â'u Cydlynydd Asedau Lleol yn Linc Cymunedol Môn fel eu bod yn gallu cyfeirio pobl oedd angen cymorth ychwanegol yn uniongyrchol at eu Cydlynydd Asedau Lleol.
d. Dros gyfnod o 20 wythnos mae Timau Cymorth Ardal Gwirfoddol a Linc Cymunedol Môn wedi gwneud y canlynol:
    - Danfon 1,800 o bresgripsiynau
    - Gwneud 8,426 o alwadau cadw mewn cysylltiad
    - Cyfeirio 160 o bobl i Fanciau Bwyd / y Cynllun Neges
    - 12,125 o Droeon Da ar gyfer 1689 o bobl (hyd at wythnos gyntaf mis Awst)

e. Mae Medrwn Môn hefyd wedi gallu helpu i sefydlu 8 Cynllun Tro Da o'r timau cymorth presennol, er mwyn sicrhau ein bod yn cadw gwirfoddolwyr a bod y math hwn o gefnogaeth yn parhau yn y tymor hir. Bydd yr 8 hyn yn ymuno â 3 Chynllun Tro Da a sefydlwyd yn flaenorol ac a addasodd eu ffyrdd o weithio o dan COVID i sicrhau bod mwyafrif yr Ynys yn cael gwasanaeth.
f. Wrth i i ni symud i'r Cyfnod DIOGELU, bydd hyn yn cryfhau'r cynnig a bydd Medrwn Môn yn cefnogi'r Cynlluniau Tro Da trwy'r ddarpariaeth staff gyfredol o dan raglen Linc Cymunedol Môn a'r Trydydd Sector yn ehangach.
g. Bu'n rhaid i ni fod yn fwy hyblyg ac arloesol yn y gefnogaeth rydym ni'n ei rhoi i ofalwyr.
h. Parhau i roi cymorth wedi'i deilwrio ar ffurf cyswllt dros y ffôn / fideo / ar-lein, galwadau cadw mewn cysylltiad, grantiau brys ymatebol, gwybodaeth a chyngor penodol ynghylch pryderon ariannol, eiriolaeth lefel isel, cyfeirio pobl at gymorth yn y gymuned, gan gynnwys banciau bwyd, grwpiau rhithwir , llythyrau teithio, masgiau diogelu i ofalwyr, cylchlythyr penodol, rhannu pryderon gyda chyrff priodol, cefnogaeth i ofalwyr ynghylch gweithdrefnau rhyddhau newydd a chymorth i ofalwyr unigolion sy'n byw gyda chyflyrau iechyd meddwl. Gwnaed dros 3000 o gysylltiadau â gofalwyr yn ystod y cyfnod hwn.
i. Mae'r Gymdeithas Alzheimer wedi sefydlu gwasanaeth ymateb dros dro newydd i'r sefyllfa Covid o'r enw 'galwadau cydymaith'. Mae'r galwadau cydymaith yn cynnig gwasanaeth lle mae gwirfoddolwr hyfforddedig yn cysylltu â phobl â dementia yn rheolaidd .

j. Mae Gweithwyr Cymdeithasol wedi bod yn cefnogi gofalwyr trwy gadw mewn cysylltiad â nhw'n rheolaidd dros y ffôn. Yn dilyn asesiad risg, a chan gadw at ganllawiau pellhau cymdeithasol llym, mae ymweliadau cartref hefyd wedi bod yn digwydd dros yr wythnosau diwethaf.

k. Roedd Gweithwyr Cymdeithasol, Gweithwyr Tîm o Amgylch y Teulu a Gweithwyr Ieuenctid yn cadw mewn cysylltiad â phlant bregus a'u teuluoedd, gan ddosbarthu Prydau Ysgol Am Ddim, darparu bagiau gweithgaredd (dros 600 i gyd) a rhoi cyngor ac arweiniad i rieni a oedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi trwy gydol y cyfnod hwn.

l. Mae diffyg gofal dydd a gofal seibiant wedi arwain at gynnydd yn y gwasanaeth eistedd gyda phobl a gynigir i roi ysbaid i ofalwyr.

m. Mae'r Cyngor hefyd wedi defnyddio cyllid CGC i ddarparu mwy o'r rhaglen 'canu ar gyfer yr ymennydd' sy'n cael ei rhedeg gan y Gymdeithas Alzheimer. Rydym hefyd yn gweithio ar ddatblygu rhaglen hyb cymunedol rhithiol gyda 4 o'n hybiau cymunedol ac un o'r timau ardal gwirfoddol. Prynwyd 120 o ddyfeisiau electronig ynghyd â bwndel data 90 diwrnod ar gyfer aelodau'r hybiau nad oes ganddynt gysylltiad â'r rhyngrwyd. Bydd drafft terfynol o'r wefan yn barod erbyn dechrau mis Medi.

n. Roedd angen gwneud darn ychwanegol o waith ar gyfer y cynllun casglu Meddyginiaeth. Fe ddaru Clystyrau Meddygon Teulu Môn ariannu gwiriadau DBS ar gyfer gwirfoddolwyr a gafodd eu recriwtio gan Medrwn Môn. Yn sgil asesiadau risg ychwanegol a gwaith a wnaed gyda Phennaeth Fferylliaeth a Meddyginiaethau BIPBC (Ardal y Gorllewin) llwyddodd Medrwn Môn i roi'r rhaglen ar waith mewn pythefnos, bron i fis cyn i'r rhaglen gael ei sefydlu gan y Groes Goch.

o. Mewn ymateb i'r pandemig fe aethom ati i addasu'r ffordd o ddarparu'r cymorth hwn, ond dim ond ychydig a newid a fu yn y math o gefnogaeth a gynigiwyd. Cael cyflenwadau bwyd oedd y flaenoriaeth i lawer o'r bobl a gysylltodd â ni.

p. Yn sgil COVID newidiodd ein ffordd o ddarparu ein gwasanaethau. Yn ychwanegol at ein gwasanaethau ffôn ac ar-lein, gwnaed gwaith uniongyrchol ar lawr gwlad gan ein Timau Cymorth Ardal dan arweiniad gwirfoddolwyr. Daethom i sylweddoli'n gyflym, fodd bynnag, fod ein cymunedau wedi dechrau gofyn am wahanol fathau o gefnogaeth wrth iddynt ddod yn fwy unig ac ynysig. Er bod y Galwadau Cadw mewn Cysylltiad yn dal i ddigwydd, roedd unigolion eisiau mwy o weithgareddau i'w cadw'n brysur. Gweithiodd Cyngor Sir Ynys Môn mewn partneriaeth ag Age Cymru Gwynedd & Môn a Medrwn Môn i sicrhau arian i redeg gwefan hybiau cymunedol rhithwir. Mae'r cynllun peilot hwn yn cael ei ddatblygu gyda llond llaw o'n hybiau cymunedol a dau o'n Timau Cymorth Ardal a bydd yn cynnig cyfle i'r rhai mwyaf bregus ac ynysig yn yr ardaloedd hynny gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp ar-lein, teithiau rhithwir o dirnodau lleol, a digwyddiadau ar-lein.

q. I ni yma yn Ynys Môn, mae'r pandemig wedi cryfhau ein Model Adeiladu Cymunedau ac wedi ein symud ymlaen yn gyflymach tuag at adeiladu cymunedau mwy gwydn sy'n gallu cynorthwyo eu hunain a gweithio mewn partneriaeth â ni i nodi pryd a sut mae nhw'n dymuno cael mewnbwn gan ein gwasanaethau.

r. Ar hyn o bryd rydym yn ailagor ein gwasanaethau dydd yn raddol yn dilyn y broses asesu risg gorfforaethol. Mae'r holl wasanaethau a ddarperir gan yr adran plant a theuluoedd wedi dychwelyd i ryngweithio wyneb yn wyneb yn bennaf. Bydd grwpiau rhianta yn parhau i gyfarfod yn rhithiol.

s. Yn ystod anterth y pandemig, roedd gan y 36 tîm Cymorth Ardal dros 850 o wirfoddolwyr, a gwnaeth Medrwn Môn ddarn penodol o waith i geisio deall pa gapasiti oedd gan y timau hynny ar benwythnosau a chyda'r nos pe bai nifer y ceisiadau'n cynyddu. Dywedodd pob tîm y gallent ymdopi pe bai'r galw am eu cymorth yn cynyddu ac roeddent yn teimlo bod ganddynt fwy o wirfoddolwyr nag oedd eu hangen mewn gwirionedd ar rai adegau.

t. Dros yr wythnosau diwethaf mae Cyngor Sir Ynys Môn a Medrwn Môn wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau'r Trydydd Sector i edrych ar eu 10 Gwers a Ddysgwyd o'r 5 mis diwethaf. Mae pob sefydliad wedi darparu manylion am Wersi a Ddysgwyd ac ar hyn o bryd mae'r Grŵp Llywio yn edrych ar bob un ohonynt fel y gallwn nodi cyffelybiaethau a gwahaniaethau ar draws y sefydliadau er mwyn medru cynllunio ar gyfer ail don bosib neu i symud tuag at y cam DIOGELU. Yr hyn sydd wedi dod yn amlwg yn gyffredinol yw bod rhannu gwybodaeth yn ystod y cyfnod, a'r ffordd y rhannwyd y wybodaeth honno, wedi bod yn gadarnhaol ymysg yr holl bartneriaid.

u. Bu'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, sy'n cynnwys y Gwasanaeth Ieuenctid, ynghyd â'r Gwasanaeth Hamdden a'r URDD, yn darparu Hybiau Chwarae Haf i blant bregus ledled Ynys Mon.

v. Roedd y wybodaeth a ddosbarthwyd gan y Timau yn cynnwys gwybodaeth gyswllt ar gyfer eu Cydlynydd Tîm Ardal a'r hyn yr oedd y Timau yn gallu ei ddarparu. Fe wnaeth rhai ardaloedd argraffu a danfon cylchlythyrau penodol a oedd yn ymwneud â COVID ac a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y Timau a'r gweithgareddau roeddent wedi bod yn eu ymgymryd â nhw yn ystod y pandemig.

w. Mae partneriaid yn trafod hygyrchedd ac ystyriaethau iaith bob amser. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod COVID a maint y wybodaeth sy'n cael ei rhannu yn arbennig o ddryslyd i lawer o bobl.

x. Gwnaethom yn siŵr bod ein Bwletinau, cylchlythyrau, arweiniad, taflenni ac ati yn hawdd eu darllen a'u deall, yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. Fe wnaethom hefyd gynhyrchu nifer o fideos byr ar gyfer cyfryngau cymdeithasol. Roedd y fideos hyn yn arbennig o ddefnyddiol ar ddechrau'r cyfnod pandemig gan iddynt dynnu sylw at fylchau mewn Timau Cymorth Ardal. Defnyddiwyd y fideos hyn felly i recriwtio gwirfoddolwyr a hefyd i rannu straeon gwirfoddolwyr ac i ddiolch i'r rheini a oedd wedi helpu.

y. Roedd 37 o dimau o wirfoddolwyr lleol (Timau Ardal), gyda 860 o wirfoddolwyr, ar waith yn ystod yr ymchwydd cyntaf o Covid-19. Rhwng 23 Mawrth a 31 Awst 2020 gwnaed cyfanswm o 11,673 tro da. Mae’n bwysig ychwanegu fod y troeon da yn parhau er gwaethaf llacio’r cyfyngiadau symud. Fodd bynnag, mae cohort o drigolion Ynys Môn wedi colli’r hyder i fynd allan ac i siopa.

z. Creodd Menter Môn fap rhyngweithiol o fanylion pob Cydlynydd Gwirfoddolwyr ac fe’i rhannwyd yn eang. Hyd yma mae 36,632 o bobl wedi edrych ar y map rhyngweithiol hwn. Yn eu plith roedd merch bryderus sy’n byw yng Nghanada a oedd yn ceisio sicrhau cefnogaeth leol i’w mam oedrannus ar Ynys Môn.

aa. Erbyn hyn mae Timau Ardal yn rhan o’r hyfforddiant i Wirfoddolwyr sy’n cael ei ddarparu ledled yr Ynys ac a brofwyd yn wreiddiol yn Mechell a Twrcelyn. Cynigir hyfforddiant i wirfoddolwyr ym meysydd GDPR, Trais Domestig a Diogelu. Mae’r hyfforddiant hwn yn cael ei weinyddu gan dîm Adnoddau Dynol CSYM drwy e-ddysgu. Gellir defnyddio’r hyfforddiant i gefnogi a gwella gwybodaeth a sgiliau gwirfoddolwyr am feysydd hanfodol megis diogelu. Gall gynorthwyo gwirfoddolwyr sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir i ennill sgiliau a gwybodaeth newydd er mwyn gwella eu siawns o gael swydd. Credir y bydd hyd at 600 o wirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi drwy system hyfforddi e-ddysgu CSYM.

bb. Prosiect Ciando Menter Môn: prosiect i ddarparu llety dros dro i weithwyr allweddol yng Ngwynedd a Môn i leihau'r risg eu bod yn heintio eu teuluoedd yn ystod y cyfnod coronafeirws. Darparwyd llety i 47 o weithwyr a chofrestrwyd cyfanswm o 144 llety. Gweithiwyd mewn partneriaeth â chwmni llety gwyliau, Dioni. Mae'r prosiect yn cael ei arfarnu ar hyn o bryd.

cc. Banc Amaeth / Agri Bank Menter Môn: Cofrestrodd 11, ac elwodd un tyddyn ar Ynys Môn o'r cynllun cneifio defaid gan fod y ffermwr yn sâl.

dd. Cynllun Selog Menter Môn: Crëwyd 12 pecyn adnoddau, gan gynnwys taflenni gwaith ac atebion, 37 clip fidio i gefnogi'r gweithgareddau a thudalen facebook i rannau cynnyrch gyda rhieni - 620 o ddilynwyr a 926 o ddilynwyr ar Twitter. Ffrydiwyd y gwaith yn genedlaethol drwy'r Hyb, ac mae tystiolaeth iddo gael ei ddefnyddio tu hwnt i Ynys Môn.

ee. Treuliodd CAB Ynys Môn amser yn cydgysylltu â chyrff dyrannu grantiau a busnesau er mwyn ceisio cael cymorth ariannol i gynnal y banciau bwyd. Bu hyn yn hynod o effeithiol, a sicrhawyd £100,000 i Fanciau Bwyd Ynys Môn, sy'n ddigon i dalu am 50 tunnell o gyflenwadau brys. Ar sail lefelau brig, mae digon o arian a stoc yn ein banciau bwyd am gyfnod o hyd at 24 mis.

ff. Mae nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd am ymyrraeth drwy'r Grant Cymorth Tai, sef y Rhaglen Cefnogi Pobl gynt, wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y cyfnod Covid-19. Ymddengys o ddadansoddiad o'r wythnos yn cychwyn 24.7.2020 fod nifer yr unigolion neu deuluoedd yr oedd angen ymyrraeth drwy'r Rhaglen Cymorth Tai arnynt yn sylweddol uwch na'r nifer o unedau a gomisiynwyd gan ddefnyddio'r arian a ddosbarthwyd gan Lywodraeth Cymru.

gg. Comisiynir cyfanswm o 676 uned cymorth tai yr wythnos, ac mae un uned yn cyfateb i un unigolyn neu deulu. Fodd bynnag, mae'r data a gasglwyd ac a ddadansoddwyd drwy'r Un Pwynt Mynediad yn amlygu fod 734 uned cymorth wedi cael eu darparu, gyda 639 yn derbyn cymorth fel bo'r angen yn eu cartrefi eu hunain neu eiddo rhent a 95 mewn llety â chymorth dynodedig. Yn ogystal, mae 26 o achosion naill ai'n disgwyl am asesiad neu ar restr aros am wasanaeth, ac mae pob un o'r 10 o ddarparwyr a gomisiynwyd gennym yn darparu mwy o wasanaeth nag a nodir yn eu cytundebau. Felly, gan y darperir 58 uned yn fwy na'r nifer a gomisiynwyd ar hyn o bryd a gan fod 26 yn disgwyl am asesiad neu ar restr aros, mae'n rhesymol tybio fod galw y galw ar hyn o bryd 84 o achosion yn fwy na'r gwasanaeth a gomisiynir. Dylid nodi nad yw'r data hwn yn cynnwys oddeutu 55 o unigolion/teuluoedd eraill sydd mewn llety brys neu lety gwely a brecwast.

hh. Mae dadansoddiad pellach o ddata'r Grant Cymorth Tai wedi amlygu cynnydd yn yr angen am ymyrraeth mewn achosion o gam-drin domestig yn ystod y cyfnod clo, er gwaetha'r ffaith mai dim ond yn ddiweddar y cafodd nifer o ddigwyddiadau eu hadrodd, ar ôl llacio rhai o'r cyfyngiadau a gyflwynwyd yn sgil Covid-19. O'r herwydd, gyda nifer gynyddol o'r rhai sy'n gyfrifol am y cam-drin yn rhydd i adael yr aelwyd, mae dioddefwyr / goroeswyr wedi cymryd y cyfle i wneud adroddiadau i'r awdurdodau perthnasol. Bu cynnydd amlwg mewn achosion iechyd meddwl, cam-drin sylweddau a digartrefedd cyffredinol. Yn ogystal, gwelwyd fod achosion yn datblygu i fod yn fwy cymhleth, ac mae angen ymyrraeth a chefnogaeth ar gyfer nifer o broblemau, gyda mwy o enghreifftiau yn y gwasanaeth ar gyfer pobl hŷn (55+ oed). Heb amheuaeth, rydym wedi gweld symudiad clir o ran dwyster achosion, o lefel isel i ganolig i ganolig i uchel, lle mae agen i'r ddarpariaeth symud oddi wrth ddull ataliol, fel y gwelwyd yn hanesyddol, tuag at ddull sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar wedi'i dargedu ac arbenigol.

ii. Darparwyd pum prosiect llesiant unigol arloesol wedi'u hanelu at grwpiau amrywiol, dan arweinyddiaeth y Gwasanaethau Tai mewn cydweithrediad â phartneriaid amrywiol. Medrwn Môn, yn bennaf, a sicrhaoedd y cyllid o ffynohellau grant amrywiol, gan gynnwys y Loteri Cenedlaethol. Roedd grwpiau'n cynnwys Plant ag anableddau / Oedolion ag anableddau dysgu a rhai a gefnogi'r gan y

Grant Cymorth Tai / Plant Gogledd Ynys Môn a gyllidir gan Magnox / Plant ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal / Tenantiaid y Cyngor. Cynigiwyd pecynnau llesiant yn cynnwys anodau garddio neu adnoddau i'w defnyddio dan do er mwyn cefnogi llesiant. Derbyniodd dros 1,000 o breswylwyr becynnau llesiant a derbyniwyd adroddiadau o ddeilliannau cadarnhaol. Mae adroddiadau unigol ar gyfer pob un o'r prosiectau ar gael drwy'r Gwasanaethau Tai. Cafodd yr adnoddau ar gyfer y prosiectau hyn eu danfon gan Clwyd Alyn a SKY.

**5.2 Tensiynau Cymunedol / agweddau Cydlyniant**

5.2.1. Yr her

Gall Tensiwn Cymunedol amrywio o ran diffiniad yn dibynnu ar gyd-destun neu sefyllfa arbennig. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn flaenorol yn y Cynllun Cydlyniant Cymunedol Cenedlaethol bod angen i Awdurdodau Lleol nodi ac ymateb yn gynnar er mwyn mynd i'r afael â thensiynau cymunedol a bod angen rhoi proses fonitro tensiynau cymunedol mewn lle i ymateb i faterion lleol. Er mwyn cyflawni hyn yn effeithiol, mae angen i'r nifer o ddigwyddiadau posib gael eu nodi drwy systemau monitro tensiynau sydd yn gynaliadwy ac yn ymateb i densiynau sy'n datblygu pryd ac os byddant yn codi.

**5.2.2. Rhwydwaith Monitro Tensiynau** - Sefydlwyd grŵp monitro Tensiynau Is-Ranbarthol er mwyn cael gwybodaeth fwy pendant gyda mewnbwn gan Arolygwyr Ardal yr Heddlu o Langefni, Caernarfon, Dolgellau, Porthmadog a Llandudno yn ystod y pandemig. Wrth i'r pandemig ddatblygu, sefydlwyd cysylltiadau cryfach gydag asiantaethau trwyddedu ac asiantaethau eraill e.e. y Parc Cenedlaethol, Morwrol ac ati. Cryfhawyd cysylltiadau â sefydliadau trydydd sector drwy Grŵp Cydnerthedd Cymunedol Gogledd Cymru a oedd yn cyfarfod yn wythnosol, a drwy gyfarfodydd wythnosol gydag arweinwyr Cydlyniant Cymunedol Sirol dynodedig a gyda Llywodraeth Cymru i roi a derbyn diweddariadau gan ranbarthau eraill yng Nghymru.

Anfonwyd 'Ffurflen Adrodd am Densiynau Cymunedol' at yr holl Gynghorau Tref a Chymuned ar Ynys Môn ar gyfer adrodd am bryderon a digwyddiadau yn gysylltiedig â thensiynau cymunedol ac i greu cysylltiadau cryfach gyda chymunedau llawr gwlad.

Paratowyd adroddiad monitro tensiynau ddwywaith yr wythnos ar gyfer timau rheoli mewn tair sir gan raddio'r tensiynau fel rhai uchel, canolig neu isel, ynghyd ag ystadegau diweddaraf yr heddlu ar ddigwyddiadau cysylltiedig â Covid-19, tensiynau cenedlaethol, troseddau casineb a throseddau eraill ac ati.

Wrth i'r pandemig ehangu, ac er mwyn datblygu ymatebion gweithredol ymarferol, sefydlwyd Grwpiau Monitro Tensiynau lleol ym mhob sir, a oedd yn derbyn mewnbwn gan sefydliadau partner e.e. CNC, yn ogystal â chydweithwyr ym meysydd Priffyrdd, Morwrol, Tai, Safonau Masnach, Iechyd yr Amgylchedd, yr Heddlu, Tîm Cyfathrebu'r Awdurdod Lleol ayb.

Yn ogystal, roedd cysylltiad rheolaidd gyda sefydliadau BAME (pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig) lleol i fonitro unrhyw droseddau casineb neu densiynau cymunedol e.e. NWAMI, NWREN, Cymorth i Ddioddefwyr ayb, a Grŵp Ymddygiad Gwrthgymdeithasol newydd ar gyfer y sector tai preifat, gyda'r adran Iechyd yr Amgylchedd a'r Heddlu'n cymryd rôl arweiniol.

**5.2.3. Tensiynau Cymunedol** – Bu'r Tîm Cydlyniant Cymunedol ynghlwm â monitro nifer o wahanol fathau o densiynau yn ystod y pandemig. Mae'r tabl isod yn cynnwys enghreifftiau o'r materion a gafodd effaith ar densiynau cymunedol ar Ynys Môn:-

| Rhif. | Materion oedd yn achosi tensiwn |
|---|---|
| 1. | Cau Canolfannau Crefyddol e.e. Mosg Bangor sy'n gwasanaethu Ynys Môn |
| 2. | Ymwelwyr yn diystyru cyfyngiadau – pobl leol yn ofni mewnfudwyr |
| 3. | Pobl ifanc yn crwydro stadau mewn grwpiau mawr (torri cyfyngiadau) |
| 4. | Nifer enfawr o negeseuon negyddol ar y cyfyngau cymdeithasol (yn gysylltiedig â throseddau casineb) |
| 5. | Defnydd helaeth iawn o ail gartrefi e.e. Rhosneigr, Rhoscolyn ayb. |
| 6. | Tudalen Facebook 'Cau'r Pontydd' yn galw am ddefnyddio'r fyddin. |
| 7. | Graffiti ac Arwyddion – negeseuon "ewch adref, nid oes croeso i ymwelwyr" |
| 8. | Lonydd i draethau lleol yn cael eu cau neu eu hatal yn anghyfreithlon e.e. Aberffraw |
| 9. | Bygythiadau y byddai pobl yn cymryd y gyfraith i'w dwylo eu hunain e.e. annog pobl i daflu cerrig at ymwelwyr, neu weithredoedd gwaeth |
| 10. | Grwpiau mawr o bobl yn cael partïon – gan dorri rheolau'r cyfnod clo |
| 11. | Nifer o achosion o 'wersylla gwyllt' anawdurdodedig |
| 12. | Cynnydd sylweddol mewn troseddau casineb o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf hyd yma |
| 13. | Ymosodiadau ar yr Heddlu a swyddogion gwasanaeth cyhoeddus e.e. poeri |
| 14. | Cymunedau BAME (pobl dduon, ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig) mewn mwy o berygl o gael eu heintio â Covid-19 |
| 15. | Pryderon am weithwyr ffatri yn teithio i'r gwaith gyda'i gilydd e.e. '2 Sisters' |
| 16. | Lonydd i draethau a chartrefi yn cael eu blocio oherwydd parcio dwbl ar lonydd cul |
| 17. | Achos sylweddol o Covid-19 yn ffatri '2 Sisters' yn Llangefni |
| 18. | Llety 'Air B&B' yn dal i gael eu rhentu yn ystod y cyfnod clo |
| 19. | Rhai meysydd gwersylla'n torri rheolau Covid-19 ar gychwyn y cyfnod clo |
| 20. | Pobl ifanc yn ymgynnull mewn grwpiau mawr mewn parciau |
| 21. | Adroddiadau am lefelau uwch o gam-drin domestig a thrais mewn cartrefi |
| 22. | Gosod unedau ar gyfer y digartref mewn ardal breswyl yn Llangefni |
| 23. | Pryderon y byddai criw o Sipsiwn a Theithwyr yn dychwelyd i'r Iwerddon gyda pherson ymadawedig |
| 24. | Sensitifrwydd ynghylch nifer o wyliau crefyddol yn ystod y cyfnod clo e.e. RAMADAN, EID, Gŵyl Iddewig ayb. |
| 25. | Cyfyngiadau ar gladdedigaethau oherwydd gofynion crefyddol yn ystod y cyfnod clo |
| 26. | Diffyg argaeledd offer diogelu personol (PPE) ar gyfer gweithwyr rheng flaen |

| | |
|---|---|
| 27. | Crynhoi bwydydd a chyflenwadau a phrinder bwyd mewn, e.e., siopau bach |
| 28. | Goblygiadau ailagor ysgolion yn dilyn achos lleol |
| 29. | Cartrefi modur a charafanau yn aros mewn safleoedd anawdurdodedig |
| 30. | Bygythiad o wneud difrod troseddol i fastiau ffonau symudol 5G |
| 31. | Twyll yn gysylltiedig â Covid-19 (gwahanol achosion, cyd-destunau a lleoliadau) |
| 32. | Gwerthu cyffuriau yn yr awyr agored ar Stadau Tai Cyngor (cysylltiedig â llinellau sirol) |
| 33. | Dwyn o eiddo gwag (busnesau a phreifat) yn ystod y cyfnod clo |
| 34. | Mwy o ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn llety Gwely a Brecwast i'r digartref a stadau tai |
| 35. | Gweithgarwch yn y cyfryngau yn corddi pryderon lleol am y coronafeirws (pryfocio) |
| 36. | Diffyg argaeledd lleoliadau profi Covid-19 lleol ar hyd yr Ynys |
| 37. | Argaeledd cyflenwadau meddygol i fferyllfeydd oherwydd cynnydd yn y galw |
| 38. | Pryder ynghylch dyfodol cartrefi gofal a nyrsio oherwydd y pandemig |
| 39. | Pryder nad oedd digon o beiriannau anadlu a chyflenwadau o ocsigen mewn lle |
| 40. | Protestiadau BLM ym Mangor a Chaernarfon – gyda thrigolion Ynys Môn yn cymryd rhan ynddynt |
| 41. | Cerfluniau a strwythurau coffaol mewn perygl oherwydd BLM |
| 42. | Ymwelwyr yn torri rheoliadau'r cyfnod clo ac yn teithio i Ogledd Cymru i gael picnic ac ymweld ag ardaloedd o harddwch am y diwrnod/ penwythnos |
| 43. | Tensiynau rhwng Saeson a Chymru a Chymru a Saeson oherwydd tensiynau ymysg pobl leol/ymwelwyr |
| 44. | Diffyg eglurder ynghylch rheoliadau Covid-19 yng Nghymru (gan Lywodraeth Cymru) |
| 45. | Problemau traffig a pharcio mewn nifer o leoliadau poblogaidd adnabyddus e.e. Niwbwrch |
| 46. | Mwy o sbwriel a biniau gorlawn mewn rhai cyrchfannau i ymwelwyr |
| 47. | Gormod o bobl ar draethau a pheidio cadw pellter cymdeithasol ar draethau poblogaidd |
| 48. | Troseddau parcio ar lonydd yn arwain at draethau prysur a chyrchfannau i ymwelwyr |
| 49. | Mwy o dipio anghyfreithlon gan fod canolfannau ailgylchu ar gau |
| 50. | Graffiti ar Dŵr Marcwis yn Llanfairpwll |

**5.2.4.** **<u>Canlyniad</u>** - Mae'r tensiynau cymunedol uchod wedi galw am ymatebion amrywiol gan wahanol bartneriaid a sefydliadau, gan gynnwys rhai o adrannau'r Cyngor Sir. Nid yw rhai o'r grwpiau monitro tensiynau cymunedol yn cyfarfod mor aml yn awr, ond sefydlwyd Fforwm Cydlyniant Cymdeithasol newydd i gefnogi fframwaith mwy cadarn a chynaliadwy wrth symud ymlaen yn ystod yr Hydref a'r Gaeaf a dylai hynny ddarparu mecanwaith symlach ar gyfer gwaith partneriaeth gydag e.e. y sector BAME (pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig) a phartneriaid allweddol megis Heddlu Gogledd Cymru a BIPBC.

**5.3 Cydweithio o ran Profi a TTP**

5.3.2 Yr her

a. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r 'Strategaeth Profi, Olrhain a Diogelu ar gyfer profi'r cyhoedd ac olrhain lledaeniad Coronafeirws yng Nghymru. (https://gov.wales/test-trace-protect
b. Amlinellodd y Cynllun dri gweithgaredd mawr yr oedd angen eu datblygu
   - Cadw llygad ar y Boblogaeth
   - Samplu a Phrofion
   - Olrhain Cyswllt a Rheoli Achosion
c. Mae'r Strategaeth yn amlinellu dull tair haen o Olrhain Cyswllt yng Nghymru - Haen Genedlaethol, Cell Ranbarthol a Chell Leol
d. Nid oedd modd cyflawni'r strategaeth yn effeithiol trwy ddefnyddio adnoddau gwarchod iechyd o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru neu Lywodraeth Leol ac o ganlyniad roedd natur y wybodaeth am gleifion i'w chasglu a'i dosbarthu yn golygu y byddid yn ceisio sicrhau'r adnoddau ar gyfer cyflawni'r strategaeth trwy adleoli gweithwyr sector cyhoeddus
e. Mae defnyddio gweithlu anarbenigol yn hanfodol er mwyn caniatáu i Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd arbenigol a'r timau gwarchod iechyd arbenigol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ganolbwyntio ar y tasgau a'r achosion mwy cymhleth.
f. Gwirfoddolodd CSYM, yn seiliedig ar brofiad o gynllun peilot a weithredwyd yng Ngheredigion, i sefydlu a threialu proses Olrhain Cyswllt ar yr Ynys i lywio datblygiad Model Rhanbarthol

5.3.3. Sut ymatebodd y Cyngor

a. Cydnabu CSYM, ynghyd â'r holl Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru, fod ganddo rôl allweddol i'w chwarae o ran gweithgaredd haen leol yn unol â'r Canllawiau Cenedlaethol
b. Canolbwyntiodd awdurdodau lleol ar sefydlu'r celloedd lleol tra'n dylanwadu ac ymgysylltu er mwyn sicrhau bod y Gell Ranbarthol wedi'i sefydlu'n effeithiol i gwrdd ag anghenion lleol
c. Adolygodd CSYM y Strategaeth a chysylltodd ag Awdurdodau Lleol eraill, ICC a BIPBC i sefydlu prosiect peilot Olrhain Cyswllt ar yr Ynys i lywio datblygiad y drefn Profi, Olrhain a Diogelu ranbarthol
d. Wrth sefydlu'r Cynllun Peilot ar gyfer POD a'r dull Rhanbarthol o weithredu, fe adleolodd y Cyngor staff i'r rolau canlynol yn y Gell Leol:
   i. Rheolwr Cymorth Busnes
   ii. Olrheinydd Cyswllt
   iii. Cynghorydd Cyswllt
   iv. Cymorth Gweinyddol
e. Darparwyd cymorth yn y maes Iechyd yr Amgylchedd gan y swyddogaeth Gwarchod y Cyhoedd
f. Darparwyd cefnogaeth Glinigol ac Iechyd y Cyhoedd gan y Gell Ranbarthol a arweiniwyd gan ICC / BIPBC
g. Unwaith yr oedd y broses olrhain cyswllt yn weithredol, canolbwyntiodd y Cyngor, ynghyd ag Awdurdodau Lleol eraill Gogledd Cymru, ICC a BIPBC, ar sefydlu a gwreiddio'r gwasanaeth yn y tymor hwy - roedd hyn yn cynnwys adolygu anghenion gweithlu a mabwysiadu model cyflogaeth, diogelu data, llywodraethu. ac ati.
h. Cafwyd £11.2M gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y Strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu (POD) yn cael ei gweithredu tan fis Mawrth 2021
i. Mae tîm cyflogedig bellach wedi ei sefydlu i sicrhau bod y broses Olrhain Cyswllt yn cael ei gweithredu'n effeithiol tan fis Mawrth, 2021

5.3.4 Canlyniad

a. Proses Olrhain Cyswllt effeithiol
b. Oherwydd yr ymateb rhagweithiol llwyddodd y Cyngor i drefnu'r haen leol yn gyflym ac yn effeithiol yn unol â'r dull cenedlaethol a rhanbarthol, a hynny gyda'r nod o leihau'r risg o haint ac i gyfyngu lledaeniad yr haint yng nghymunedau'r Ynys, gan leihau nifer yr achosion mewn ysbytai ac yn y pen draw, ostwng y cyfraddau marwolaeth yn sgil COVID-19
c. Rheolwyd yr achosion a dorrodd allan yn y ffatri 2 Sisters yn effeithiol ac nid ymledodd i'r gymuned
d. Mae'r broses Olrhain Cyswllt yn parhau i weithredu'n effeithiol.

**6. GWERSI A DDYSGWYD A'R FFORDD YMLAEN**

Wrth ddelio ag unrhyw argyfwng mae angen pwyso a mesur, ynghyd â dysgu a chasglu gwybodaeth allweddol i lywio cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Cynhaliwyd ymarfer myfyrio a dysgu cychwynnol ddiwedd Mehefin 2020. Roedd hwn ar ffurf dadansoddiad SWOT (cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau) a gwblhawyd gan bob aelod o'r tîm rheoli yn eu meysydd Gwasanaeth perthnasol ac a gasglwyd ynghyd mewn un ddogfen gan y Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr. Yn dilyn adolygiad ac ystyriaeth bellach, mae'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol wedi cytuno ar y materion sy'n sefyll allan o safbwynt corfforaethol:

**Cryfderau**

1. Mae Technoleg Gwybodaeth wedi golygu y bu modd gweithio gartref yn effeithiol (parhad busnes)
2. Mae cyfathrebiadau o'r brig i lawr wedi bod yn effeithiol ac yn gadarnhaol
3. Mae cydweithredu'n fewnol a chyda phartneriaid wedi bod yn bwysig ac yn effeithiol (gan adeiladu ar drefniadau cyn-COVID)
4. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithlu wedi addasu'n gyflym ac yn effeithiol i ffordd wahanol o weithio a / neu ofynion newydd (ymddygiadau a galluoedd newydd)
5. Gwytnwch ac ymrwymiad y gweithlu
6. Lleihau carbon a buddion amgylcheddol (angen mesur / meintioli)

**Gwendidau**

1. Anawsterau Technoleg Gwybodaeth yn y cartref (band eang, arafwch citrix ac ati)
2. Gwytnwch a hyblygrwydd y system ffôn
3. Parhau i ddefnyddio prosesau papur mewn rhai meysydd gan ddibynnu ar brosesau maniwal (llungopïo, sganio ac ati)
4. Anawsterau gweithio gartref i rai staff - methu gwneud, lleoedd gwaith anaddas, hunanynysu, goruchwylio perfformiad, cefnogi, rheoli o bell, lles ac ati.
5. Her oriau hir, sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a'r gallu i gymryd amser i ffwrdd i rai staff
6. Mae anghysondebau mewn arddulliau, galluoedd ac ymddygiadau rheoli ac arweinyddiaeth yn effeithio ar staff ac allbynnau.

**Cyfleon**

1. Manteisio ymhellach ar Dechnoleg Gwybodaeth - cyfarfodydd rhithwir, prosesu electronig, office 365, cyfathrebu ac ati.

2. Sicrhau gwell cydbwysedd rhwng gweithio o'r swyddfa a gweithio gartref, gyda chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a manteision llesiant
3. Lleihau seilos Gwasanaeth, gan weithio'n fwy thematig ar draws y strwythur i wella ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a pherfformiad
4. Adolygu sut mae gwasanaethau'n cael eu strwythuro a'u darparu a defnyddio prosesau cysylltiedig i wella perfformiad ac effeithiolrwydd
5. Gwella effeithlonrwydd trwy leihau amseroedd teithio i gyfarfodydd, nifer y milltiroedd a deithir, yr angen am ofod swyddfa a phrosesau maniwal
6. Prif ffrydio buddion amgylcheddol, hinsawdd a digarboneiddio trwy fabwysiadu polisïau, protocolau ac arferion gweithio newydd.

**Bygythiadau**
1. Parhad a gwytnwch busnes yn dibynnu ar Dechnoleg Gwybodaeth
2. Gall gweithio gartref fod yn ddwys ac yn unig i rai staff a gall gael effaith negyddol ar gydlyniant tîm a'r gallu i integreiddio staff newydd
3. Diffyg gallu i adnabod a mabwysiadu datrysiadau digidol deinamig newydd (gyda gwrthwynebiad i newid gan rai staff)
4. Mae gwytnwch, gallu a chapasiti mewn rhai meysydd gwaith allweddol yn fregus ac yn fain.
5.Effeithiau negyddol ar les a llesiant personol rhai staff, gyda gofynion ac ansicrwydd yn creu straen a phryder (anodd eu canfod, eu cefnogi a'u rheoli o bell)
6. Rhai staff yn methu addasu a newid, gan ddod yn rhwystr i gynnydd ac effeithio'n negyddol ar eu lles eu hunain
7. Mae diwygio rheolaethau mewnol yn cynyddu'r risgiau a'r tebygolrwydd o ddiffyg cydymffurfio, twyll, camgymeridau ac ati.

Mae'r allbwn o'r broses ddadansoddi SWOT, fel y crynhoir uchod, yn cael ei ddefnyddio i lywio a dylanwadu ar y cynllun gweithredu ar gyfer adfer datblygiad y sefydliad (a phenderfyniadau cysylltiedig ar adnoddau).

**7. TREFNU A CHYNLLUNIO’R ADFERIAD**

7.1 Roedd yr adroddiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 13 Gorffennaf a 17 Awst yn adrodd ar fframwaith a ffrydiau gwaith adfer y Cyngor. Adroddir ar y rhaglenni gwaith adfer i'r Bwrdd Rhaglen Corfforaethol yn y lle cyntaf, sy'n cynnwys mewnbwn gan Aelodau Sgriwtini. Yna, cyflwynir adroddiadau crynodol i'r pwyllgorau sgriwtini. Bydd hyn yn rhoi cyfle i’r Pwyllgor graffu ar y cynnydd o ran cyflawni meysydd thematig allweddol a siapio rhaglenni gwaith y Pwyllgorau wrth symud ymlaen.

| **6 – Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Amherthnasol |

| **7- Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| |

| **8 – Atodiadau:** |
|---|

| |
|---|
| **9 – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
| Papur Sgopio: Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21/09/2020. Craffu ar Agweddau Cymunedol Ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Covid-19<br><br>Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7HF |

**Dyddiad: 07/09/20**

This page is intentionally left blank

F7 [16/10/17]



| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **21 Medi, 2020** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2020/21** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2020/21<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |
| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith

ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Effaith yr Argyfwng presennol ar Raglen Waith y Pwyllgor**

Mae'r cyfnod presennol (**rheoli ymateb argyfwng i'r Pandemig, yr Adfer ac yn raddol dychwelyd i'r Normal Newydd**) yn eithriadol o heriol i'r Cyngor a bob sefydliad cyhoeddus arall drwy Gymru wrth i ni barhau i wynebu heriau'r argyfwng Covid-19, ac mae'n anorfod bod hyn yn cael effaith ar raglen waith y Pwyllgor. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi newid ei ffordd o weithio o ganlyniad i'r argyfwng iechyd byd-eang. Yn ystod cyfnod o argyfwng fel hyn, mae llywodraethu ac atebolrwydd yn allweddol bwysig.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn cynnig model sgriwtini penodol yn sgil y pandemig, sydd ar y cyd â Strategaeth Bwyllgorau'r Cyngor yn gymorth i lywio rhaglen waith y Pwyllgor, gweler amlinelliad ohono isod:

i. Ffocws ar nifer llai o faterion allweddol sy'n canolbwyntio ar agweddau sylfaenol bywyd pobl leol ("*life and limb*")
ii. Cynnal briff gwylio dros wasanaethau'r Cyngor, perfformiad a materion ariannol
iii. **Elfennau penodol y Model Craffu:**
   - Trosolwg o ymateb y Cyngor i Covid-19
   - Trosolwg penodol ar faterion sylfaenol bywyd (deddfwriaeth gofal; diogelu plant ac oedolion; iechyd cyhoeddus)
   - Cynnal trosolwg ar faterion cyllidol y Cyngor
   - Gweithredu fel cyfrwng ar gyfer profiadau cymunedol.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2020/21 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2020

| | |
|---|---|
| | lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:<br>• Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)<br>• Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini). |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2020/21 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI → MEDI 2020 – EBRILL, 2021**
**[Fersiwn ddyddiedig 04/09/20]**

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| **Medi, 2020 (14/09/20)** | **Medi, 2020 (21/09/20)** |
| Craffu Ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Covid-19 (yn cynnwys yr effaith ariannol) | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2019/20 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | Craffu Agweddau Partneriaethol: Ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Covid-19 |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |
| **Medi, 2020 (22/09/20)** | |
| Adroddiad Cynnydd Cynllun Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adroddiad Cynnydd y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019/20 | |
| | |
| **Hydref, 2020 (20/10/20)** | **Hydref, 2020 (22/10/20)** |
| Strategaeth Ataliol Corfforaethol | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Rhan 9: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) **(i'w gadarnhau)** |
| Cynllun Cyflawni Blynyddol 2019/20 | Partneriaeth Diogelwch Cymunedol: Adroddiad Blynyddol 2019/20 |
| Cynllun Cyflawni Blynyddol 2020/21 **(i'w gadarnhau)** | Cytundeb Llywodraethu 2 - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| | |
| **Tachwedd, 2020 (02/11/20) [cyllideb 2021/22]** | **Tachwedd, 2020 (10/11/20)** |
| Cynigion Drafft Cychwynnol Cyllideb 2021/22 | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu ar y trefniadau llywodraethu |
| Cynllun Ymgynghori Cyhoeddus ar gyfer cyllideb 2021/22 | Adroddiad Safonau Ysgolion (Haf, 2020) **(i'w gadarnhau)** |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Blynyddol GwE 2019/20 **(i'w gadarnhau)** |
| **Tachwedd, 2020 (17/11/20) [Ch2]** | Adroddiad Cynnydd Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion |
| Monitro Cyllideb Chwarter 2 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| | |
| | **Ionawr, 2021 (19/01/21)** |
| | |
| | |
| **Chwefror, 2021 (01/02/21) [cyllideb 2021/22]** | **Chwefror, 2021 (09/02/21)** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2021/22 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| | |
| **Mawrth, 2021 (08/03/21)** | **Mawrth, 2021 (09/03/21)** |

Drafft Diweddaf

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Adroddiad Cynnydd Cynllun Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adroddiad Cynnydd y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| | |
| **Ebrill, 2021 (12/04/21)** | **Ebrill, 2021 (14/04/21)** |

**Eitemau i'w rhaglennu:**

**Trawsnewid Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu**

**Rhaglen Moderneiddio Ysgolion- ardal Llangefni**

Draft Diweddaraf